
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol



# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19

HC 2335

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin o dan Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 04 Gorffennaf 2019.  HC 2335

HC 2335

OGL

© Hawlfraint y Goron 2019

TTrwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

ISBN 978-1-5286-1099-5
CCS0319733868 07/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys


## Adroddiad perfformiad

| | |
|---|---|
| Trosolwg | 5 |
| Datganiad y Prif Weithredwr | 5 |
| Ynghylch yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol | 8 |
| Ein rhaglenni diwygio | 11 |
| Ffocws ar ein blwyddyn | 12 |
| Dadansoddi ein perfformiad | 12 |
| Perfformiad yn erbyn amcanion | 13 |
| Perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Strategol yn 2018-19 | 13 |
| Ein sefyllfa ariannol | 22 |
| Sylwebaeth ar reolaeth ariannol | 22 |
| Cynaliadwyedd | 24 |
| Adroddiad cynaliadwyedd | 24 |
| Edrych i'r dyfodol | 28 |

## Adroddiad atebolrwydd

| | |
|---|---|
| Llywodraethiant | 31 |
| Cyflwyniad | 31 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 32 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 33 |
| Datganiad Llywodraethu | 34 |
| Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff | 49 |
| Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol | 50 |
| Buddion pensiwn y gwasanaeth sifil | 55 |
| Aelod anweithredol o'r Bwrdd | 58 |
| Adroddiad staff | 59 |
| Atebolrwydd Seneddol | 63 |
| Tystysgrif ac adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin | 64 |

## Datganiadau ariannol

| | |
|---|---|
| Y prif gyfrifon | 70 |
| Nodyn 1 – Cyfrifyddu | 74 |
| Nodyn 2-22 | 84 |

# Adroddiad perfformiad




Shaun McNally CBE

# Datganiad y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno chweched Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC). Eleni, mae'r Asiantaeth wedi gwneud cynnydd pwysig o ran ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol mwy effeithlon.

Amcan Strategol 1

## Darparu mynediad, syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

Rydym yn parhau i gwrdd â'r targedau heriol rydym yn eu gosod i ni ein hunain ar gyfer ein prosesau busnes craidd; fe wnaethom brosesu 91% o'r ceisiadau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil o fewn 20 diwrnod gwaith a thalu 99% o filiau sifil a throseddol o fewn 15 diwrnod gwaith.

Yn ystod 2018-19 llwyddom i gomisiynu a gweithredu dros 1570 o gontractau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Bu hon yn broses fawr a chymhleth ac fe fyddwn yn rhoi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ar waith. Gwnaethom gynnydd pellach hefyd gyda'n Rhaglen i Drawsnewid yr Asiantaeth, i symleiddio'r ddarpariaeth Cymorth Cyfreithiol a chreu gwasanaeth digidol, modern.

Mae Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS), sy'n darparu cyngor a chynrychiolaeth annibynnol, sy'n canolbwyntio ar y cleient, ym mhob math o achos troseddol o'r orsaf yr heddlu i'r llysoedd uwch, wedi cynnal ei achrediad Lexcel sy'n dangos fod ansawdd y gwasanaeth a gynigir yn hollbwysig. Mae'r PDS hefyd yn rhannu ei brofiad beunyddiol o'r system cyfiawnder troseddol gyda llunwyr polisi a chydweithwyr ym maes diwygio'r llysoedd.

Amcan Strategol 2

## Creu cysylltiadau cryf ar draws y Llywodraeth a'r system gyfiawnder

Rydym wedi parhau i ddefnyddio dull cydweithredol o ddarparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol effeithlon ar ran y Llywodraeth a'r trethdalwr.

Rydym yn gweithio gyda darparwyr cymorth cyfreithiol a rhanddeiliaid ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chyrff cynrychiadol allanol drwy'r Grwpiau Cynghori Contractau Troseddol a Sifil. Gan weithio'n agos gyda darparwyr cymorth cyfreithiol mae ein Tîm Ymgysylltu â Darparwyr wedi symleiddio asesiadau heb eu pasportio ac asesiadau modd cyfalaf ac maent bellach yn prosesu'r ceisiadau hyn o fewn dau ddiwrnod gwaith. Byddwn yn ystyried Adolygiad Gweithredu'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol a Chosbi Troseddwyr a chefnogi darparu'r Cynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithio. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth i wella rhannu data

Amcan Strategol 3

Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

Mae stiwardiaeth ariannol dda a diogelu'r Gronfa'n parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Asiantaeth. Rydym yn ymrwymedig i leihau ein cyfradd wallau ac rydym wedi gweithio gyda darparwyr i leihau gwerth taliadau ar gyfrif achosion sy'n weddill o dros £19m.

Fel Asiantaeth rydym yn gwneud ein gorau i dorri'n côt yn ôl y brethyn. Rydym wedi lleihau ein costau staffio o £2.1m o gymharu â 2017-18. Mae costau gweithredu eraill wedi codi o £5m, gyrrir hyn gan gynnydd o £5.3m yn y gwariant nad yw'n arian parod, o ganlyniad i welliannau i'n systemau digidol.

Amcan Strategol 4

Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

Rwyf wrth fy modd ein bod wedi cynnal ein sgôr ymgysylltiad staff o 71% a'n bod yn parhau ymysg deg uchaf y 102 o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil sy'n cymryd rhan.

Rydym wedi cynnig cyfleoedd dysgu i staff ar bob lefel yn y sefydliad, gan gynnwys rhaglenni datblygu, cymwysterau a phrentisiaethau proffesiynol er mwyn sicrhau bod ein pobl yn meddu ar y gallu i fod ar eu gorau ac i wireddu eu doniau.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wneud yr ACC yn lle gwych i weithio, gan gynnal diwylliant cynhwysol a grymuso a chefnogi ein staff i edrych ar ôl eu lles.

Mae hyn oll yn ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth i ni drawsnewid i ddod yn sefydliad symlach a chlyfrach.

Byddwn y parhau i chwarae rhan allweddol ar draws y system gyfiawnder er mwyn helpu i warchod a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein hamcanion gan weithio'n agos gyda sefydliadau partner yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), ar draws y Llywodraeth a thu hwnt.


Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
27 Mehefin 2019



# Ynglŷn â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Ein diben: Gweithio gydag eraill i ragori mewn darparu cymorth cyfreithiol

Mae ein gwaith yn gweinyddu cymorth cyfreithiol yn hanfodol os yw'r systemau cyfiawnder troseddol, sifil a theulu i weithio'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol ac rydyn ni'n gweithio'n agos â darparwyr cyfreithiol a'r MoJ ehangach i gyflawni hyn. Mae ein pwrpas wedi bod wrth galon ein holl benderfyniadau a'n gwaith i wella gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae ymgysylltiad ac ymrwymiad ein staff yn greiddiol i gyflawni hyn.




Rhoddir mwy o fanylion am ein Hamcanion Strategol ar dudalennau 13-21 yn yr adran Dadansoddi ein Perfformiad.

Mae'r Amcanion Strategol hyn yn parhau i osod y cyfeiriad sy'n cefnogi ein gwaith o wella a moderneiddio'r ACC, yn cryfhau ein partneriaethau ar draws y system gyfiawnder gan sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr, a sicrhau fod gan ein pobl y sgiliau a'r arfau cywir i wneud eu rolau.

Mae ein Hamcanion Strategol yn cefnogi gweledigaeth Cynllun Adrannol Sengl yr MoJ:
https://intranet.justice.gov.uk/documents/2018/07/single-departmental-plan.pdf

# Ein gwaith

## Wrth graidd ein gwaith:

Rydyn ni'n prosesu ceisiadau gan ddarparwyr am gymorth cyfreithiol ac yn talu eu biliau

Mae gennym reolwyr contract sy'n gweithio'n agos â'n darparwyr i gynnal y berthynas a sicrhau bod ein contractau'n rhedeg yn llyfn




Mae gennym swyddogaeth gomisiynu a strategaeth sy'n dylunio, datblygu a thendro contractau newydd

Rydyn ni'n darparu cynrychiolaeth amddiffyn annibynnol mewn achosion troseddol drwy Wasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus

## Cefnogir hyn i gyd gan

Staff Cyllid a Digidol proffesiynol yr MoJ sy'n cefnogi'r LAA fel rhan o'r fframwaith arweinyddiaeth drwy wneud. Maen nhw'n gweinyddu'r gwaith o dalu am gymorth cyfreithiol, yn sicrhau bod y gofynion ariannol yn cael eu cwrdd ac yn cynorthwyo gyda darparu rhaglenni newid allweddol a symud yr LAA tuag at wasanaethau digidol a phrosesau awtomeiddio.

Swyddogaeth gorfforaethol sy'n sicrhau Cyfathrebu effeithiol, sy'n cefnogi ein Bwrdd a'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, yn datrys cwynion sydd wedi'u huwchgyfeirio ac yn ateb ceisiadau'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) a Rhyddid Gwybodaeth (FOI).

Cyd-wasanaethau, gan gynnwys adnoddau dynol a gwasanaethau cyfreithiol, sy'n darparu cymorth i'r LAA, yr MoJ ac adrannau eraill y llywodraeth.


9

## Ein Pobl

Ein pobl sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Yn ystod 2018-19 fe wnaethom barhau i wneud yr ACC yn lle gwych i weithio ac rydym yn falch bod hyn wedi ei adlewyrchu yn ein lefelau uchel o ymgysylltu yn ein Harolwg Pobl 2018.

Fe wnaethom ddarparu'r gymysgedd gywir o gyfleoedd dysgu a datblygu a chryfhau ein gallu i arwain. Mae ein pobl wedi elwa ar ystod o raglenni datblygu o fewn a thu allan i'r ACC.

Yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi dechrau mabwysiadu ymagwedd newydd at recriwtio a rheoli perfformiad, sy'n ein galluogi i ddenu a chadw gafael ar ystod amrywiol o bobl. Ar draws ein holl safleoedd cefnogwyd ein pobl i gymryd mantais o'r cynnig i Weithio'n Glyfrach.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i werthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddarparu cymorth cyfreithiol ac yn y gweithle ac rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol.

## Ein Partneriaid

Fel un o'r prif gyfranwyr yn y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, rydym yn gweithio ag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar sail sawl model gweithredu gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys ymarferwyr unigol, busnesau mawr aml-swyddfa a sefydliadau ddim er elw. Mae rhai'n rhoi cyngor ac yn arbenigo mewn maes cyfreithiol penodol; mae eraill yn gweithio mewn sawl categori gwahanol o'r gyfraith.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y system gyfiawnder. Maen nhw'n cynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, y Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theuluol, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, HMCTS a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rydym hefyd yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth, yn cynnwys y Swyddfa Gartref.

Mae ein perthynas gyda'n darparwyr yn ganolog i waith yr ACC. Drwy gyfarfodydd fel y Grwpiau Cynghori Contractau Troseddol a Sifil a'r Tîm Ymgysylltu â Darparwyr, rydyn ni'n sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion gweithredol pwysig â'r prif gyrff cynrychiadol. Mae ein rheolwyr contract a'n staff rheoli achosion yn gweithio'n ddyddiol â'n darparwyr i sicrhau bod ceisiadau a biliau'n cael eu prosesu a bod ein contractau'n rhedeg yn llyfn. Mae cyhoeddiadau gweithredol rheolaidd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau cymorth cyfreithiol GOV.UK. Rydym yn rhannu diweddariadau â dros 14,000 o danysgrifwyr i'n Bwletin ACC ac rydym yn gwneud defnydd cynyddol o Twitter.

## Ymgysylltu yng Nghymru

Mae'r ACC, drwy weithgorau strategol, yn cynnal cysylltiadau â Llywodraeth Cymru, i gydnabod gweinyddiaeth ddatganoledig y wlad. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft Byrddau Cyfiawnder Teuluol a Throseddol Cymru a hefyd gyda rhanddeiliaid penodol i Gymru yn cynnwys Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Llys Plant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS Cymru).

### Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 wedi sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cymorth cyfreithiol yn aros yn annibynnol o Weinidogion. Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC), a grëwyd o ganlyniad i'r Ddeddf, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Prif Weithredwr yr ACC sy'n cyflawni'r rôl hon, gan drosglwyddo'r gwaith ymarferol o wneud penderfyniadau i weithwyr achos yr ACC a darparwyr.

Mae Bwrdd yr ACC yn cefnogi'r Cyfarwyddwr i sicrhau bod arferion cadarn yn eu lle i gadw'r broses o wneud penderfyniadau'n annibynnol. Cyhoeddir Adroddiad DLAC yn flynyddol ynghyd â'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

### Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS)

Mae'r PDS yn darparu cyngor a chynrychiolaeth amddiffyn ym mhob math o achosion troseddol, o orsaf yr heddlu i'r uwch lysoedd. Mae'n cynrychioli diffynyddion sy'n cael cymorth cyfreithiol ac mae'n cynnwys Tîm Eiriolaeth.  Mae eiriolwyr y PDS yn cynnal achosion ar hyd a lled y wlad, ar gyfarwyddyd unrhyw gwmni cyfreithwyr neu ddiffynnydd sy'n cael cymorth cyfreithiol.  Mae'r PDS wedi derbyn achrediad Lexcel am ragoriaeth mewn gofal cleient a rheoli gwasanaethau cyfreithiol.

# Ein Rhaglenni Diwygio

### Ein Rhaglen Trawsnewid Asiantaeth (ATP)

Drwy ATP ymrwymwn i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a chlyfrach i gymdeithas, y cyhoedd a'n darparwyr cymorth cyfreithiol, ac i sicrhau fod yr ACC yn parhau i fod yn lle gwych i weithio.

Gweledigaeth yr ATP yw symleiddio'r gwaith o ddarparu cymorth cyfreithiol erbyn 2020. Rydym eisoes wedi dechrau ar hyn drwy wneud y canlynol:

1. Datblygu gwasanaeth digidol newydd i ymdrin â cheisiadau am gymorth cyfreithiol, yn cynnwys defnydd arloesol o dechnoleg Bancio Agored er mwyn gwella sut mae dinasyddion yn rhannu eu gwybodaeth gyda ni.
2. Gweithio ar draws y Llywodraeth  er mwy rhannu data'n well; lle bo'n bosibl rydym eisiau cyrchu data sy'n bodoli eisoes yn y Llywodraeth, yn hytrach na gofyn amdano eto.
3. Treialu cyfnewid ffeiliau diogel, galluogi darparwyr i rannu ffeiliau electronig â ni yn haws. .

### Ein Portffolio Newid

Mae ein Portffolio Newid yn sicrhau ein bod yn gwneud y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi ein hamgylchedd gweithio a pharhau i gyflawni ein targedau perfformiad. Rydym wedi diweddaru ein ffordd o weithio i gyflwyno proses o lywodraethu ar y cyd â thimau digidol ac i sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cyd-fynd.

Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Sefydlogi ein hisadeiledd TG;
- Ymateb i newidiadau deddfwriaethol, blaengareddau polisi newydd a blaenoriaethau gan weinidogion y llywodraeth;
- Gwella'r drefn o rannu data a chadw'n gyfredol â moderneiddio ar draws y system cyfiawnder;
- Adnewyddu ac ail-dendro contractau sy'n allweddol i'r busnes; a
- Parhau i weithio ar Raglen Drawsnewid yr Asiantaeth.

# Dadansoddi ein perfformiad

Yn ein chweched flwyddyn fel Asiantaeth Weithredol rydym wedi cyflawni nifer o welliannau i'n gwasanaeth a'n prosesau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein ffordd o weithio. Llwyddwyd i wneud hyn wrth barhau i berfformio'n gryf yn erbyn ein Hamcanion Strategol a'n targedau gweithredo.

# Dadansoddi ein perfformiad

Cafodd yr ymrwymiadau sydd ynghlwm â'r amcanion eu monitro drwy fframwaith rheoli perfformiad yr ACC sy'n cynnwys pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n mesur elfennau arwyddocaol o'n gwaith beunyddiol.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad hefyd yn mesur cerrig milltir allweddol mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau cynllun busnes yr ACC. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd adroddiadau ar y canlyniadau i'r Tîm Arwain Gweithredol (ELT), Bwrdd yr ACC a Phwyllgor Gweithredol yr MoJ.

## SO1

Rhoi mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

KPI: Darparu Gweithredol
KPI: Gohebiaeth a Gwasanaeth Cwsmeriaid

Ymrwymiadau

- Canolbwyntio ar ein pwrpas craidd o rhoi mynediad dibynadwy ac amserol at gymorth cyfreithiol
- Gwella ein prosesau busnes i sicrhau ein bod yn cynnal a chryfhau'r gwasanaeth rhagorol a ddarparwn i gwsmeriaid, boed yn ddefnyddwyr neu'n bartneriaid yn y system gyfiawnder
- Gweithredu gwelliannau i'n systemau TG busnes gan gynnig mwy o wasanaethau digidol i staff a defnyddwyr
- Caffael contractau cymorth cyfreithiol sifil newydd ar gyfer cyngor wyneb yn wyneb a chyngor arbenigol a ddarperir drwy'r llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Sifil

## SO2

Creu cysylltiadau cryf ar draws Llywodraeth a'r system gyfiawnder

Ymrwymiadau

- Moderneiddio'r ffordd y talwn eiriolwyr amddiffyn troseddol a chyfreithwyr troseddol drwy newid y Cynlluniau Ffioedd
- Graddedig ar gyfer Eiriolwyr a Chyfreithwyr
- Gwneud newidiadau i gefnogi cyflwyno Credyd Cynhwysol (UC)
- Gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder i gyflwyno blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gamdrin domestig
- Gweithio gyda'n partneriaid ar draws y system gyfiawnder i wneud arbedion pellach yn ein canolfannau cyswllt
- Gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol tuag at ddigideiddio mwy o'r system cyfiawnder troseddol

## SO3

Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

KPI: Rheolaeth Ariannol

Ymrwymiadau

- Torri'n côt yn ôl ein brethyn a gwario llai ar Weinyddu yn 17/18
- Gweithredu Contractau Troseddol newydd a ddechreuodd yn Ebrill 2017
- Cefnogi'r ffocws mwy hirdymor ar symleiddio ac awtomeiddio ein gwasanaethau ymhellach drwy ein portffolio o newidiadau a diwygiadau
- Parhau i gomisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr o ansawdd sicr

## SO4

Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

KPI: Pobl

Ymrwymiadau

- Datblygu a dechrau darparu ein Strategaeth Pobl
- Ymateb i ganlyniadau Arolwg Pobl 2016 drwy gryfhau'r arweinyddiaeth ar bob lefel yn y sefydliad; drwy gael sgyrsiau gwell, cryfhau sgiliau a gallu ein pobl a bod yn glyfrach o ran sut yr ydym ni'n cydweithio
- Parhau i greu gweithle cynhwysol, cynyddu amrywiaeth a gwreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gryfach wrth ddylunio a darparu cymorth cyfreithiol

## Amcan Trategol 1

### SO1: Darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

#### KPI: Darparu Gweithredol

- Yn mesur pa mor gyflym yr ydyn ni'n prosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol sifil a throseddol ac yn talu biliau ein darparwyr
- Yn monitro pa mor dda y rheolir perfformiad y contractau â'n darparwyr.

Rydyn ni wedi gwella ein perfformiad o ran prosesu ceisiadau troseddol ac wedi aros o fewn y targedau ar gyfer prosesu ceisiadau sifil a biliau troseddol a sifil

**100%** o geisiadau troseddo wedi eu prosesu o fewn 2 ddiwrnod gwaith (targed 90%)

**91%** o geisiadau troseddol wedi eu prosesu o fewn 20 ddiwrnod gwaith (targed 80%)

PAID

**99%** o filiau wedi eu talu mewn mis (targed 90%)

#### KPI: Gohebiaeth a Gwasanaeth Cwsmeriaid

- Monitro ymateb ein gwasanaeth cwsmeriaid i ymholiadau, gohebiaeth a chwynion gan gynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a'r Ddeddf Diogelu Data (DPA).
- Monitro'r gwasanaeth a ddarparwn drwy'r Llinell Gymorth Sifil, gan fesur pa mor gyflym yr ydyn ni'n ateb galwadau a chreu cwsmeriaid bodlon.

**99%** o gwynion haen 1af wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**99%** o gwynion ail haen wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**98%** o ohebiaeth gan ASau wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**100%** geisiadau FOI wedi eu hateb o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**98%** o geisiadau DPA wedi eu hateb o fewn 40 diwrnod

Galwadau wedi eu hateb ar gyfartaledd mewn

2:24 minutes – Sifil

1:50 minutes – Troseddol

yn ein Canolfan Gyswllt Ganolog (targed llai na 02:50 munud)

Ein cyfradd gollwng galwadau wedi gostwng eto i:

**8.5%** Sifil

**6.46%** Troseddol

(targed llai na 12%)

## 1 Mae Amcan Strategol 1 yn gysylltiedig â'r ymrwymiadau canlynol

Allwedd ar gyfer adrodd ar ymrwymiadau

✓ Cyflawnwyd ✗ Heb ei gyflawni

| | |
|---|---|
| ✓ | Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol i'r rhai lle mae eu bywyd neu eu rhyddid yn y fantol, lle maen nhw'n wynebu colli eu cartref, mewn achosion o drais yn y cartref, a lle gellid cymryd eu plant i ofal |
| ✓ | Darparu cytundebau cymorth cyfreithiol sifil newydd |
| ✓ | Darparu gwasanaethau cwsmer ymatebol, hygyrch o ansawdd uchel i'n defnyddwyr a'n partneriaid yn y system cyfiawnder |
| ✓ | Parhau i ddarparu Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus o ansawdd uchel |

Rydym wedi parhau â'r gwaith yn ein Cynllun Trawsnewid Asiantaeth i symleiddio'r drefn o ddarparu cymorth cyfreithiol erbyn 2020. Ein nodau allweddol yw darparu gwasanaeth sy'n hygyrch a hawdd i'w weinyddu, yn wasanaeth digidol modern sy'n hyblyg a hylaw ar gyfer anghenion y dyfodol.

Yn Hydref 2018 cafodd set derfynol o gytundebau sifil newydd eu cwblhau. Digwyddodd hyn yn dilyn llwyddiant wrth gomisiynu a gweithredu dros 1,580 o gytundebau newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil.

Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys cytundebau wyneb yn wyneb a chytundebau teleffon, a oedd yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil i'r cyhoedd.

Gan ymateb i darged gwasanaeth cleient mwy heriol eleni o ateb 90% o ymholiadau Deddf Diogelu Data o fewn 30 diwrnod, llwyddom i fynd tu hwnt i hynny gan ateb 98% o'r ymholiadau o fewn 30 diwrnod.

Gan gynnal eu cymwysterau Lexcel, mae Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus wedi parhau i ddarparu cyngor a chynrychiolaeth annibynnol sy'n canolbwyntio ar y cleient mewn pob math o achosion troseddol gan gyfrannu at wybodaeth llunwyr polisi a chydweithwyr ym maes diwygio'r llysoedd.

Amcan Trategol 2

SO2: Creu cysylltiadau cryf ar draws y Llywodraeth a'r system cyfiawnder

## 2 Mae Amcan Strategol 2 yn ymwneud â'r ymrwymiadau

- ✓ Cefnogi'r gwaith o weithredu blaenoriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer system gyfiawnder effeithiol a theg fydd yn gwasanaethu'r holl ddefnyddwyr, pryd bynnag fyddant ei hangen
- ✓ Gweithio gyda'n partneriaid ar draws y system cyfiawnder i ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Gweithredu LASPO
- ✓ Parhau i wreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth lunio a darparu cymorth cyfreithiol

Mae newidiadau deddfwriaethol eleni yn golygu ein bod wedi cyflwyno newidiadau i'n Ffi Cyfreithiwr wedi ei Graddoli a'n Cynllun Ffi Eiriolwr wedi ei Graddoli.

Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr Polisi Cymorth Cyfreithiol, rydym wedi helpu i ddatblygu a sefydlu'r rhaglenni diwygio Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol a'r Adolygiad Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol.

Rydym wedi gweithio gyda'r HMCTS i sicrhau bod y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol yn cyd-fynd a chefnogi ei raglen o ddiwygiadau,  yn cynnwys y cynllun treialu Oriau Gwaith Hyblyg ynghyd â rhaglen ddiwygio tymor hwy yr HMCTS.

Ar hyd y flwyddyn, ar draws yr MoJ, rydym wedi darparu arbenigedd pwnc benodol, data, a chymorth i gydweithwyr yn yr MoJ a oedd yn cynhyrchu adroddiad Adolygu Gweithredu LASPO, a chefnogi datblygiad y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein newidiadau a'n gwelliannau digidol rydym wedi gwneud cynnydd wrth gydlynu ein dulliau gweithredu â thimau ar draws yr MoJ a'r llywodraeth yn ehangach.

Rydym wedi cyfarfod â chyrff cynrychiadol yn rheolaidd i drafod a datrys materion polisi a gweithredol. Rydym wedi cydweithio gyda rhannau eraill o'r Llywodraeth i sicrhau y caiff Cymorth Cyfreithiol ei ystyried mewn newidiadau polisi a deddfwriaethol ehangach, ac rydym wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau a chynlluniau treialu.



## Amcan Trategol 3

SO3: Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn


Costau gweinyddol yr Asiantaeth – Gwneud pethau'n fwy effeithlon a chreu arbedion costau fel bo'r Asiantaeth yn gallu darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol o fewn y gyllideb weinyddol sydd ganddi.

- Gwariant y Gronfa Cymorth Cyfreithiol – Ymarfer stiwardiaeth ariannol ofalus o'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol gan ganolbwyntio ar adnabod arbedion ac atal twyll.
- Y gyfradd wallau net – Monitro pa mor gywir yr ydyn ni'n caniatáu ceisiadau grant am gymorth cyfreithiol ac yn prosesu biliau.

yn 2018- 19:

Fe wnaethom barhau i ddarparu stiwardiaeth gref, lleihau ein costau gweinyddol ac aros o fewn ein cyllideb Weinyddol

Yr amcan-gyfradd wallau net ar gyfer 2018 - 19 yw:




compared to **0.8%** in 2016-17

**For more information** on LAA expenditure refer to the Financial Management Commentary and Financial Statements.

## 3 Mae Amcan Strategol 3 yn gysylltiedig â'r ymrwymiadau canlynol

- ✓ Ymarfer stiwardiaeth gyllidol ofalus mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol, gan ganolbwyntio ar adnabod arferion effeithlon mewn prosesu busnes ac atal twyll
- ✓ Sicrhau bod gwasanaethau a rheoli cytundebau wedi eu comisiynu'n effeithiol
- ✓ Parhau i weithredu ein Portffolio Newid, gan sicrhau ein bod yn cyfrannu at awydd yr MoJ i gadw rheolaeth dynn ar gyllid adrannol.

Mae canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth rheoli a chyfathrebu rhagweithiol â'n Darparwyr wedi ein galluogi i gau achosion, gan leihau taliadau ar werth cyfrifon achosion sifil sy'n weddill o dros £19 miliwn yn ystod 2018-19.

Mae ein Rhaglen Trawsnewid Asiantaeth wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda'r gwaith digidol datblygiadol yn amlygu dulliau newydd o weithio. Rydym hefyd wedi dechrau treialu a gweithredu syniadau ar gyfer symleiddio ac awtomeiddio er mwyn lleihau ymyriadau dynol a chynnal gweithgor i adnabod camau ar gyfer cynnydd. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar barhau i ddatblygu sgiliau digidol.

Amcan Trategol 4


SO4: Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

## KPI: Ein Pobl

- Absenoldeb Salwch - Monitro sawl diwrnod a gollir drwy salwch



collwyd **5.7** diwrnod ar gyfartaledd oherwydd salwch staff ar draws yr LAA (cymharu 4.9 yn 2017-18)




O dan feincnod y Gwasanaeth Sifil o

**7.0 diwrnod**

## 4 Mae Amcan Strategol 4 yn gysylltiedig â'r ymrwymiadau canlynol

- ✔ Gweithredu ein Cynllun Pobl, gan ein galluogi i ddenu a chadw gafael ar ystod amrywiol o bobl, darparu'r gymysgedd gywir o ddysgu a datblygu, a meithrin ein harweinwyr ar gyfer y dyfodol.
- ✔ Parhau i greu lle gweithio gwych sy'n deg a chynhwysol, gan ddefnyddio Gwerthoedd yr MoJ ar gyfer gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Cefnogi mwy o symudedd cymdeithasol, a gwell iechyd corfforol a meddyliol.
- ✔ Gwreiddio ein Strategaeth Ddigidol, gan sicrhau fod gan ein pobl, ar draws ein holl safleoedd, yr arfau a'r gallu angenrheidiol i fanteisio ar ein cynnig i Weithio'n Glyfrach.

Throughout the year we have promoted the key elements of our People Plan 2018-19 promoting and supporting opportunities including the Leadership Development Programme, Building Skills Programme, apprenticeships, shadowing, professional development and mentoring schemes. We continue to participate actively in the social mobility and schools' programmes. In September we launched our part-time workers and carers network to support people across the LAA.

Building capability, in September our people took part in a digital skills survey resulting in a working group identifying key actions to progress. These focus on providing support and continuing to develop digital skills.

We maintained our staff engagement score at **71%**.

Amongst participating Civil Service organisations, the LAA ranked **9th overall** and **1st** for similar sized Civil Service organisations

The LAA are in the top 10 (of 102 Civil Service organisations that participated) for **8 out of 9** categories




Er mwyn parhau i adeiladu gweithle cynhwysol, cynyddu amrywiaeth a gwreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ymhellach, fe wnaethom lansio ein hymgyrch Recriwtio Teg a Chynhwysol a ddyluniwyd i wreiddio gweithio hyblyg ac i greu mwy o hyblygrwydd o ran lleoliadau ar gyfer rolau newydd. Fe wnaethom hefyd gyflwyno Panelau Recriwtio Amrywiol a gefnogwyd gan ein cronfa recriwtio amrywiol, cynnal cyfres o sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Ragfarn Ddiarwybod a chynnal Gweithdai Ymwybyddiaeth o Anabledd Cyfnod II.

# Sylwebaeth ar reolaeth ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi sylwebaeth ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn cyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol. Cyflwynir y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 68 i 103. Mae Nodyn 2 ar y Datganiadau Ariannol ar dudalen 84 yn manylu ar y costau gweithredu net ar gyfer pob un o'r segmentau isod ac mae nodiadau 2-6 yn rhoi'r manylion gwariant ac incwm yn fanwl. Isod fe welir y symudiadau mwyaf yng ngwariant cymorth cyfreithiol fesul cynllun, gan gymharu 2018-19 â 2017-18

## Materion arwyddocaol yn Natganiad Sefyllfa Ariannol yr ACC

Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill
Mae hyn ar gyfer gwaith a gwblhawyd gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori ond sydd heb ei filio hyd yma. Caiff gwerth y gwaith cyfredol hwn ei amcangyfrif drwy nodi'r nifer o achosion a ddechreuodd ac yna amcangyfrif y gwaith a wnaed yn defnyddio proffiliau cost a pharhad achosion hanesyddol pob cynllun cymorth cyfreithiol unigol. Mae'r mwyafrif o rwymedigaethau'r ACC sy'n weddill yn rhai am filiau a dderbyniwyd ond heb eu prosesu eto, sy'n cael eu trin fel taladwyon masnachol, ynghyd â gwaith heb ei dalu a adroddwyd mewn hawliadau talu ar gyfrif, sy'n cael eu trin fel croniadau.

Derbyniadau masnachol ac eraill
Mae hyn yn cynnwys arian sy'n ddyledus gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol a chwsmeriaid a dderbyniodd gymorth cyfreithiol, y rhan fwyaf yn ddyledus fel taliad statudol. Mae taliadau statudol yn codi pan fydd cleientiaid cymorth cyfreithiol yn llwyddo i ennill neu gadw ased o ganlyniad i 'r cymorth cyfreithiol a roddir iddynt.

Yn yr amgylchiadau hyn rhaid i'r cleient ad-dalu cost eu cymorth cyfreithiol. Os nad oes gan y cleient ddigon o asedau gwerthadwy i ad-dalu'r cymorth cyfreithiol, mae'r ACC yn ennill gwarant dros y ddyled drwy gofrestru taliad ffurfiol dros yr ased perthnasol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor hawl i ohirio gorfodi'r taliad hwn a chronni llog yn erbyn y ddyled ar log syml o 8% hyd nes y bydd yr hawlydd yn gallu ad-dalu'r ddyled. Mae'r ddyled naill ai'n cael ei hadennill pan werthir yr ased neu'n gynt os gall y cleient ad-dalu'r ddyled yn gynt. Anogir cleientiaid i ad-dalu'r ddyled cyn gynted ag y medrant i osgoi talu llog.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i greu ystâd gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn trawsnewid y ffordd mae gweision sifil yn gweithio.
Er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd rydym wedi gweithio tuag at Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth ac ymrwymiadau'r Llywodraeth i ddarparu gweithredu a chaffael cynaliadwy.

## Mae ein strategaeth gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar:



Ymwybyddiaeth amgylcheddol – mae lleihau ac ailgylchu gwastraff yn digwydd yn gyson yn ein gwaith beunyddiol. Rydym hefyd yn hyrwyddo arferion rheoli gwastraff a chaffael cyfrifol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn darparu manylion am Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer ystod o gynhyrchion. Fel rhan o bob proses dendro lle maen nhw'n berthnasol, caiff Safonau Prynu'r Llywodraeth eu gorfodi gennym ni.



Ymwybyddiaeth o newid hinsawdd – – mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r MoJ yn parhau i reoli ac adolygu adeiladau a safleoedd risg uchel. Mae hyn yn amlygu safleoedd sy'n fwy agored i effeithiau newid hinsawdd fel tymheredd, llifogydd ac amodau hinsawdd andwyol eraill. Gallwn felly werthuso'r defnydd o ynni er mwyn goleuo ein strategaeth weithredol yn well a gweithio'n fwy cynaliadwy.



Digideiddio – Digideiddio – Yn 2018-19, digwyddodd 98% o'r cyswllt cychwynnol â'r ACC, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau a biliau, ar-lein. Rydym yn gwella'r ffordd rydym yn gofyn am dystiolaeth, sut rydym yn defnyddio data gan adrannau eraill o'r llywodraeth a sut rydym yn ymdrin â ffeiliau mawr er mwyn lleihau ymhellach ein dibyniaeth ar bapur. Rydym wedi cynyddu awtomeiddio (hawliadau teithio yn Llys y Goron er enghraifft) sy'n ein galluogi i brosesu achosion yn fwy effeithlon. Byddwn yn gwneud gwelliannau pellach wrth i ni roi cychwyn ar ein Cynllun Gwneud Cais am Gymorth Cyfreithiol, fu'n llwyddiannus yn asesiad digidol cychwynnol y llywodraeth yn 2018, a byddwn y dechrau ei gyflwyno yn 2019. Rydym wedi parhau i gynnig gwell arfau cydweithio ar gyfer staff mewnol sy'n caniatáu gweithio'n fwy effeithlon a hyblyg. Mae'r defnydd o bapur wedi gostwng eto o 10 i 8 tunnell (lleihad gwariant o £1k), sy'n dangos y buddion parhaus o brosiectau a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Yn ogystal, gwnaed ymdrechion i fod yn fwy effeithlon drwy rannu swyddogaethau gan gynnwys Shared Services Connected Ltd, y Tîm Cyfreithiol Canolog a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol sy'n rhoi cymorth i'r ACC, yr MoJ ac adrannau eraill y Llywodraeth. Mae hyn yn lleihau faint o staff, adnoddau a gofod swyddfa sydd ei angen ynghyd ag allyriadau. Yn ystod 2018-19, symudodd cyn safleoedd yr ACC yn Leeds a Brighton i ganolfannau traws-lywodraethol, er mwyn ein galluogi i rannu adnoddau ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill. Ail-leolwyd safle Caergrawnt o fewn yr un adeilad.

Mae gan yr LAA Bencampwr Gwyrdd i helpu i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac i wella arferion gweithio yn ein swyddfeydd. Mae staff yr LAA wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r MoJ fel ailgylchu a chompostio cwpanau bioddiraddadwy newydd yn 102 Petty France a rhaglenni bioamrywiaeth fel y Big Garden Bird Watch.

## Adrodd ar fesurau cynaliadwyedd amgylcheddol

### Ers 2018-19

**Nwy**

10% lleihad mewn $tCO_2e$

**Trydan**

57% lleihad mewn MWh

**Y defnydd o bapur**

15% lleihad yn y defnydd o bapur

**Gwastraff**

14% lleihad mewn tunelli

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG)

| Energy | | 2018-19 | 2017-18[2] | 2016-17[2] | 2015-16[2] | 2014-15[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli cyfwerth â$CO_2$ $tCO_2e$)) | Nwy – ynni anadnewyddadwy3 Sgôp 1 | 85 | 95 | 103 | 176 | 157 |
| | Trydan – ynni anadnewyddadwy3 Sgôp 2 | 107 | 323 | 417 | 528 | 484 |
| | Trydan – ynni adnewyddadwy3 Sgôp 2 | 77 | 102 | 124 | 158 | 144 |
| | Allyriadau o deithio busnes swyddogol – Sgôp 3[1] | 174 | 194 | 162 | 260 | 334 |
| | Cyfanswm | 443 | 713 | 806 | 1122 | 1119 |
| Dangosyddion anariannol(oriau Megawatt MWh) | Nwy – ynni anadnewyddadwy3 Sgôp 1 | 463 | 514 | 560 | 959 | 853 |
| | Trydan – ynni anadnewyddadwy3 Sgôp 2 | 348 | 1,050 | 1,356 | 1,720 | 1,574 |
| | Trydan – ynni adnewyddadwy3 Sgôp 2 | 252 | 332 | 405 | 514 | 470 |
| | Cyfanswm | 1,063 | 1,896 | 2,321 | 3,193 | 2,897 |
| Financial indicators (£000) | Gwariant crynswth ar ynni3 | 108 | 210 | 267 | 350 | 319 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol[1] | 642 | 662 | 502 | 896 | 1,459 |
| | Cyfanswm | 750 | 872 | 769 | 1,246 | 1,778 |

1 1 Heb gynnwys teithio ar gyfer staff a symudodd i'r MoJ fel rhan o arweinyddiaeth swyddogaethol 2017-18.
2 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu lluosydd trosi allbwn cyfredol.
3 Gwybodaeth a oedd ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Bryste, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Manceinion, Brighton, Caer, a Chaerdydd.

Mae'r defnydd o ynni ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHG), o drydan a brynwyd ar gyfer gwresogi, i lawr o'i gymharu â'r llynedd. Mae'r cyfanswm gwariant ar drydan a nwy wedi gostwng 49%. Mae ein swyddfeydd yn Leeds a Brighton wedi dechrau trefniadau llety newydd yn ystod y flwyddyn, a bydd defnydd a chost ynni'n cael ei adrodd ar sail rhannu lle o hyn ymlaen.

Mae'r cynnydd rhwng 2014-15 a 2015-16 drwy gydol yr adroddiad hwn o ganlyniad i effaith blwyddyn lawn o symud y Tîm Trethu Cenedlaethol a'r Tîm Ceisiadau Troseddol HMCTS i'r ACC. Yn ogystal roedd cynnydd o 10% mewn prisiau nwy rhwng 2014-15 a 2015-16

## Teithio

| Travel | | 2018-19 | 2017-18[1,2,3,4] | 2016-17[2,3] | 2015-16[2] | 2014-15[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allbwn (km 000) | Cerbydau modur | 415 | 415 | 366 | 513 | 561 |
| | Rheilffordd | 2,131 | 2,513 | 1,948 | 3,230 | 4,415 |
| | Hedfan | 33 | 55 | 64 | 153 | 237 |
| | Cyfanswm | 2,579 | 2,983 | 2,378 | 3,896 | 5,213 |
| Allbwn ($tCO_2e$) | Cerbydau modur | 75 | 75 | 66 | 93 | 101 |
| | Rheilffordd | 94 | 111 | 86 | 143 | 195 |
| | Hedfan | 5 | 8 | 10 | 24 | 37 |
| | Cyfanswm | 174 | 194 | 162 | 260 | 334 |

1 Heb gynnwys teithio ar gyfer staff a symudodd i'r MoJ fel rhan o arweinyddiaeth swyddogaethol 2017-18.
2 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu lluosydd trosi allbwn cyfredol.
3 Mae'r km rheilffordd wedi ei ddiwygio i gynnwys amcangyfrif o 37,000km ar gyfer teithio tocyn tymor
4 Mae'r km modur wedi ei ailddatgan o ganlyniad i ddata ychwanegol

Ni fu newid yn allyriadau cerbydau modur ac mae'r pellter a deithiwyd wedi aros yn gyson, ond mae allyriadau rheilffordd wedi lleihau 15% wrth i deithio ar y rheilffordd leihau. Mae allyriadau hedfan wedi lleihau 43% yn dilyn lleihad o 40% yn y pellter a hedfanwyd. Ar y cyfan mae allyriadau wedi gostwng 11%.


## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

| Dwr | | 2018-19 | 2017-18[2] | 2016-17[2] | 2015-16[2] | 2014-15[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth anariannol (metrau ciwbig) | Defnydd o ddŵr | 3,496 | 14,897 | 14,792 | 13,102 | 9,634 |
| Gwybodaeth ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | 5 | 21 | 21 | 20 | 14 |

1 Gwybodaeth a oedd ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Nottingham, Newcastle, Darlington, Abertawe, a Cheltenham.
2 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu lluosydd trosi allbwn cyfredol

Mae ein defnydd o ddŵr wedi lleihau o 77% rhwng 2017-18 a 2018-19.

## Papur




Mae ein defnydd o bapur rhwng blynyddoedd wedi lleihau'n sylweddol ac mae gwariant wedi gostwng yn unol â hynny. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol o'n cynnydd tuag at weithio'n gyfan gwbl ddi-bapur.

## Lleihau a rheoli gwastraff

| Gwastraff | | 2018-19 | 2017-18[2] | 2016-17 | 2015-16[1] | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth anariannol (tunelli) | Gwastraff a anfonwyd i dirlenwi | 162 | 148 | 298 | 345 | 298 |
| | Gwastraff a ailgylchwyd / | 691 | 840 | 366 | 692 | 618 |
| | Cyfanswm | 853 | 988 | 664 | 1037 | 916 |
| Gwybodaeth ariannol (£000 | Gwastraff a anfonwyd i dirlenwi | 17 | 16 | 32 | 37 | 32 |
| | Gwastraff a ailgylchwyd / | 9 | 11 | 5 | 9 | 8 |
| | Cyfanswm | 26 | 27 | 37 | 46 | 40 |

1 Gwybodaeth oedd ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Brighton, a Llundain.
2 Ailddatganwyd tirlenwi ac ailgylchu ar gyfer 2017-18 oherwydd gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn 2018-19.

Mae'r gwariant ar wastraff wedi gostwng o ganlyniad i gytundebau rheoli cyfleusterau newydd a ddechreuodd yn Ionawr 2018. Rydym yn parhau i ddarparu biniau ailgylchu hygyrch yn ein holl swyddfeyddiannogLleihautirlenwiasicrhau'railddefnyddiogorauoadnoddaucyfyngedig.Feddylai cynnydd pellach wrth weithio'n ddigidol a lleihau papur leihau gwastraff yn y dyfodol hefyd.

# Edrych i'r dyfodol

Rydym yn parhau i wella ein systemau a'n trefniadau rheoli er mwyn cyflawni, yn llwyr ac yn gywir, ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol. Yn Ebrill 2018 fe wnaethom lansio strategaeth ddigidol newydd, fydd yn cyfrannu mwy eto at wneud arferion gweithio'n fwy effeithlon.

Ein strategaeth gynaliadwyedd yw parhau i weithio'n agos gyda Thîm Datblygu Cynaliadwy yr MoJ tuag at gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth 2016-2020. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weithio ar ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella ein rheolaeth o wastraff, defnyddio llai o ddŵr a phrynu mwy o gynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon er mwyn sicrhau ein bod yn effeithio cyn lleied â phosib ar yr amgylchedd yn y tymor hir.

Mae ein Tîm Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Cyfleusterau'n parhau i ganfod ffyrdd y gallwn leihau ein hôl troed carbon drwy uwchraddio cyfleusterau.

Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i weithio'n well – drwy weithio digidol a gwell defnydd o dechnoleg.

Byddwn yn archwilio ymhellach i resymoli ein stadau er mwyn lleihau'r gofod rydym yn ei feddiannu drwy drefniadau gweithio mwy hyblyg. Bydd hyn yn lleihau ein hanghenion ynni llety ymhellach.

Rydym yn ymrwymedig i greu ystâd gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, yn lleihau ein heffaith ac yn galluogi trawsffurfio'r ffordd y mae gweision sifil yn gweithio.

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth y

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
27 Mehefin 2019

# Adroddiad Atebolrwydd



# Rhagarweiniad

Mae ein Dogfen Fframwaith yn nodi'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, atebolrwydd, ariannu, staffio a gweithrediadau, a gellir ei gweld yn llawn yn: https://www.gov.uk/government/organisations/legal-aid-agency/about/our-governance

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu (AO) ar gyfer yr LAA, rwyf yn gyfrifol am sut mae'r LAA yn defnyddio adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir hynny yn y Ddogfen Fframwaith. Hefyd, mae 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn nodi cyfrifoldebau AO.

Fel AO rwyf yn gyfrifol am ddiogelu'r arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano, am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra wrth drin arian cyhoeddus ac am weithrediadau a rheoli'r LAA o ddydd i ddydd. Hefyd, mae'n rhaid imi sicrhau bod yr LAA yn ei gyfanrwydd yn cael ei redeg yn unol â safonau mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol.

Mae fy adroddiad yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu sydd wedi eu sefydlu er mwyn rheoli risgiau er mwyn cyflawni amcanion a thargedau cytunedig yr LAA, a darparu trosolwg a rheolaeth effeithiol ar ei adnoddau a'i asedau. Mae'n cynnwys:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr;
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu;
- Datganiad Llywodraethu.

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae manylion am gyfansoddiad Bwrdd yr LAA, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) ar gael ar dudalen 37. Gyda'i gilydd maent yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol LAA a monitro perfformiad yn erbyn amcanion cytunedig.

Datganiad o fuddiannau cyfarwyddwyr
Mae'n ofynnol i Aelodau Anweithredol y Bwrdd (NEBMau) ddatgan unrhyw gyfarwyddiaethau a gwrthdaro buddiannau pan y'u penodir. Hefyd mae'n ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau na ddatgelwyd yn flaenorol. Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau yn ystod 2018-19.

Digwyddiadau yn ymwneud â Data Personol
Ystyriwyd a oedd yna unrhyw ddigwyddiad oedd yn ymwneud â data personol oedd yn ddigon difrifol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Yn ystod 2018-19 ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau i'r ICO.

Mae'r Datganiad Llywodraethu ar dudalennau 34-48 yn ystyried mwy o ymarferion sicrhau gwybodaeth a diogelu data yn yr LAA.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2020, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan ddilyn y ffurf a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac yn seiliedig ar hynny. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa LAA a'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o Ddarpariaeth Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu (AO) gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig mewn perthynas â:

- Goruchwylio'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- Nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu cymhwysol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;

- Paratoi'r cyfrifon fel busnes gweithredol.

Mae'r AO yn cadarnhau, cyn belled â'i fod yn ymwybodol:

- Nad oes yna wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio nad yw archwiliwr LAA yn ymwybodol ohono, a'i fod wedi cymryd yr holl gamau i sicrhau ei fod yn ymwybodol o wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr LAA hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a
- Bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy, a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, a'r dyfarniadau oedd eu hangen ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dynodi mai'r Prif Weithredwr yw AO yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae cyfrifoldebau'r AO yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r AO yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, sydd yn cael eu nodi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad yma yn ymdrin â fy nhrydedd flwyddyn fel Prif Weithredwr ac AO ar gyfer LAA. Rwyf yn dal yn gyfrifol am gynnal system gydnerth o reolaeth fewnol sydd yn cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion LAA, tra'n diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol. Mae hynny yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghyhoeddiad Trysorlys EM 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oed yna wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Hefyd rwyf yn parhau i gyflawni rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC), a ddynodir i mi gan yr Arglwydd Ganghellor. Rwyf yn ymgymryd â rôl DLAC yn ymarferol gan ddirprwyo'r broses o wneud penderfyniadau i weithwyr achos LAA a darparwyr. Fel DLAC, rwyf yn cael cefnogaeth Bwrdd LAA o ran sicrhau bod ymarferion cydnerth wedi eu sefydlu er mwyn cynnal proses benderfynu annibynnol ar gyfer dyfarnu cymorth cyfreithiol. Mae fy Adroddiad DLAC Blynyddol yn darparu crynodeb o'r penderfyniadau a wnaethpwyd, y gwaith a wnaethpwyd ar fy rhan a'r prosesau a ddilynwyd.

## Perthynas â'r Senedd

Mae'r LAA yn destun craffu gan y Senedd. Mae hynny yn cynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC), y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO). Mae'r MoJ, a'r LAA fel rhan annatod o'r adran, wedi parhau i weithio ar draws y system gyfiawnder er mwyn rhannu arferion gorau a chlustnodi a rhoi camau effeithlonrwydd ar waith sydd yn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'n defnyddwyr.

## Yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd

Mae gan yr LAA weithdrefn gwyno dwy haen sydd yn darparu proses ar gyfer adolygu cwynion yn wrthrychol cyn i'r achwynwr benderfynu a yw'n dymuno cyfeirio'r mater at y PHSO drwy ei Aelod Seneddol lleol. Pan fo'n briodol, bydd LAA yn cysylltu'n uniongyrchol â swyddog cyswllt y PHSO er mwyn:

- Trafod cynnydd achosion unigol;
- Darparu diweddariadau am newidiadau: er enghraifft, newidiadau polisi ac effeithiau posibl ar y PHSO;
- Sicrhau bod arferion gorau ac adborth adeiladol yn cael eu rhannu ddwy ffordd.

Mae'r LAA yn cyfarfod yn rheolaidd â fforwm cwynion yr MoJ cyfan, oherwydd bod y themâu a'r perthnasoedd gweithio yn debyg. Mae hynny yn cynnig cyfle i gydweithredu er mwyn parhau i wella ein gwasanaeth delio â chwynion.

Yn ystod 2018-19, hysbyswyd yr LAA am 13 o gwynion a atgyfeiriwyd. O blith y rhain derbyniwyd dau ar gyfer ymchwiliad ffurfiol. Daeth y PHSO i gasgliad ar 18 o achosion oedd yn mynd rhagddynt yn ystod y flwyddyn hon (gall casgliadau achos bontio nifer o flynyddoedd ac nid oes yna gysylltiad uniongyrchol â chwynion a gyflwynwyd neu a ddatryswyd yn ystod pob blwyddyn ariannol). O blith yr achosion a ddatryswyd, ni ategwyd yr un yn gyfan gwbl, ni ategwyd yr un yn rhannol a gollyngwyd un achos. O blith yr argymhellion a roddwyd, cydymffurfiwyd â nhw neu mae'r gwaith o'u gweithredu yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlenni cytunedig. Ar ôl i ymchwiliad ddod i ben bydd yr LAA yn cymryd y camau angenrheidiol er mwyn rhoi argymhellion y PHSO ar waith. Gall hynny hysbysu newidiadau i brosesau a ffyrdd o weithio fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i'r dyfodol.

## Fframwaith llywodraethu


Manylir ar y strwythur llywodraethu ar dudalen 37 ac fe'i sefydlwyd gydag ymrwymiad i liflinio ein llywodraethiant a galluogi digon o drosolwg a rheolaeth ar flaenoriaethau cyflawni'r LAA. Datblygwyd hynny yn unol ag egwyddorion canllawiau arferion gorau Trysorlys EM 'Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arferion Da' (Y Cod), i'r graddau y mae hynny yn gymwys i Asiantaeth Weithredol.

Er mwyn lliflinio a gwella effeithlonrwydd ein fframwaith llywodraethu, cyflwynwyd newidiadau yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi ein agenda newid ac yn cyflawni penderfyniadau allweddol yn effeithiol.

Un o elfennau allweddol y broses o symleiddio'r fframwaith a'r broses benderfynu gysylltiedig fu egluro'r cyfrifoldeb ar y cyd rhwng MoJ Digidol a'r LAA am newid digidol, sydd yn cydweithio er mwyn blaenoriaethu a chyflawni cynigion o'r fath.

Mae'r strwythur llywodraethu a roddwyd ar waith wedi gweithio'n effeithiol fel a fwriadwyd, gan ddarparu cefnogaeth gref i mi fel AO a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ehangach (ELT) o ran cyflawni ein cyfrifoldebau.

## Strwythur llywodraethu



## Aelodau'r Pwyllgor a Phresenoldeb

| ENW A RÔL | RHYW | BWRDD LAA | ELT | PWYLLGORAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Buddsoddiad hyd at ddiwedd Mehefin 18 | Newid hyd atddiwedd Mehefin 18 | ARAC | Gweithrediadau | Cyllid a Risg | Pobl |
| EXECUTIVE BOARD | | | | | | | | | |
| Shaun McNally CBE - Prif Weithredwr, LAA Nifer a fynychwyd | G | Aelod<br>11 of 11 | Cadeirydd | | | Trwy wahoddiad | | | |
| Ruth Wayte - Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol yr LAA Nifer a fynychwyd | B | Aelod – hyd at 06.03.19<br>6 of 10 | Aelod hyd at 06.03.19 | | | | | | |
| Adrian Hannell - Cyfarwyddwr Cyllid Interim Nifer a fynychwyd | G | Aelod – hyd at 16.11.18<br>3 of 7 | Aelod - hyd at 16/11/2018 | Cadair – hyd at ddiwedd Mehefin 18 | | Trwy wahoddiad - hyd at 16/11/2018 | | | |
| Lorna Maden - Cyfarwyddwr Cyllid Interim Nifer a fynychwyd | B | Aelod – hyd at 21.11.18<br>3 of 4 | Aelod - o 21.11.18 | | | Invitee – from21.11.18 | | | |
| Jane Harbottle - Pennaeth Rheoli Achosion Sifil a Throseddol Nifer a fynychwyd | B | Aelod<br>8 of 11 | Aelod | | | | Cadair | | |
| David Thomas - Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli a Sicrwydd Contractau Nifer a fynychwyd | G | Aelod<br>7 of 7 | Aelod | | Cadair – hyd at ddiwedd Mehefin 18 | Invitee | | Cadair – o01.12.18 | |
| Samantha Milton - Pennaeth y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus<br>Nifer a fynychwyd | B | Aelod<br>1 o 5 | Aelod | | | | Cadair – o 04.03.19 | | Chair – until 26.07.18, from 27.03.19 |
| Naomi Abigail – Pennaeth y Ganolfan Gorfforaethol<br>Nifer a fynychwyd | B | Aelod – hyd at 26.03.19<br>6 o 7 | Aelod – hyd at 26.03.19 | | | | | | Chair – from 27.07.18, until 26.03.19 |

| ENW A RÔL | RHYW | BWRDD LAA | ELT | PWYLLGORAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Buddsoddiad hyd at ddiwedd Mehefin 18 | Newid hyd atddiwedd Mehefin 18 | ARAC | Gweithrediadau | Cyllid a Risg | Pobl |
| Paul Henson - Dirprwy GyfarwyddwrCyllid<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod<br>8 o 8 | Aelod | | | Invitee | | Chair – until 30.11.18 | |
| Hannah Payne - Dirprwy Gyfarwyddwr Gweddnewid<br>Nifer a fynychwyd | B | Aelod – o 27.09.18<br>5 o 6 | Aelod – from 27.09.18 | | | | | | |
| **NIFER A FYNYCHWYD** | | | | | | | | | |
| John Grosvenor – Cyllid<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod<br>9 of 11 | | | | Cadair | | | |
| Andrew Lockley– Cyfreithiol<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod – hyd at 30.01.19<br>7 of 8 | | | | Aelod – hyd at 30.01.19 | | | |
| Eric Gregory – Masnachol<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod - hyd at 30.11.18<br>8 of 8 | | | | Aelod hyd at 30.11.18 | | | |
| Deep Sagar – Masnachol<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod - o 01.12.18<br>3 of 3 | | | | Aelod – 01.12.18 | | | |
| Calum Mercer – Ariannol<br>Nifer a fynychwyd | G | Aelod - o 01.01.19<br>3 o 3 | | | | Aelod – o 01.01.19 | | | |
| **ARALL** | | | | | | | | | |
| Pennaeth Digidol | G | Trwy wahoddiad | Aelod | | | Trwy wahoddiad | | | |
| Pennaeth Cyllid | G | | | | | Trwy wahoddiad | | | |

| ENW A RÔL | RHYW | BWRDD LAA | ELT | PWYLLGORAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Buddsoddiad hyd at ddiwedd Mehefin 18 | Newid hyd atddiwedd Mehefin 18 | ARAC | Gweithrediadau | Cyllid a Risg | Pobl |
| Pennaeth Swyddfa'r Prif Weithredwyr | B | Trwy wahoddiad | | | | Trwy wahoddiad | | | |
| Cyfarwyddwr AD MoJ ar gyfer LAA | B | Trwy wahoddiad | Aelod | | | | | | |
| Cyfarwyddwr MoJ | G | Trwy wahoddiad | | | | | | | |
| – Polisi Cymorth Cyfreithiol | G | Trwy wahoddiad | | | | | | | |
| Cyfarwyddwr Cyllid Cyffredinol MoJ | | Trwy wahoddiad | | | | | | | |

Rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor

Bwrdd Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
The LAA Board supports me as Accounting Officer (AO) and my other senior officials in directing the business of the LAA. The Board is ultimately responsible for providing advice on the governance and strategic direction of the LAA. Some responsibilities of the Board are delegated to its committees, who are set out below. The composition of the Board has changed over the last year as we have rationalised our committee structure (page 37) and adopted a joint governance structure with MoJ Digital. The LAA Board is comprised of:

- Prif Weithredwr;
- Aelodau Anweithredol y Bwrdd (NEBMau);
- Y Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwr Cyllid;
- Cadeiryddion y tri Phwyllgor; a
- Dirprwy Gyfarwyddwr Gweddnewid yr Asiantaeth

Bu newidiadau i aelodau unigol y Bwrdd. Daeth cyfnod dau o'n NEBM i ben, a phenodwyd dau aelod Anweithredol newydd ar y Bwrdd. Mae Calum Mercer, Deep Sagar, Lorna Maden a Hannah Payne wedi ymuno â'r Bwrdd. Mae Andrew Lockley, Eric Gregory, Ruth Wayte, Adrian Hannell a Naomi Abigail wedi gadael. Mae Suzanne Rab wedi ei phenodi fel NEBM o 1 Ebrill 2019.
Cynhaliwyd 11 o gyfarfodydd Bwrdd, a dau gyfarfod strategaeth y Bwrdd yn ystod 2018-19. Roedd y pwyllgor strategaeth cyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu dull o weinyddu cymorth cyfreithiol sydd yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Roedd yr ail bwyllgor strategol yn canolbwyntio ar gyfeiriad gwaith Rhaglen Drawsnewid a Dyluniad Sefydliadol yr Asiantaeth i'r dyfodol. Hefyd cynhaliodd y Bwrdd weithdy oedd yn adolygu ymagwedd yr Asiantaeth at risg, ble ystyriwyd rhyngberthynas risg a datganiad archwaeth risg yr Asiantaeth.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi adolygu agweddau allweddol o berfformiad yr LAA gan ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol, cyllid, cyflawniadau, risgiau a chamau gwella. Mae'r Bwrdd wedi derbyn sicrwydd gan waith Archwilio Mewnol bod mesurau rheoli ariannol effeithiol yn weithredol, sydd yn tanategu'r data a geir yn yr adroddiadau yma. Mae'r Bwrdd hefyd wedi dangos diddordeb mawr mewn ymgysylltu â'r staff; monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau, a chraffu ar Gynllun Pobl 2018-19. Ar ôl gwerthuso ei effeithlonrwydd ei hun, cytunodd y Bwrdd y byddai'n gwella'r llif gwybodaeth iddo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC): Hefyd comisiynodd y Bwrdd waith ar ddiweddaru a gwella'r broses gynefino â'r Bwrdd er mwyn darparu'r gefnogaeth orau posibl i aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi parhau i gynyddu gwelededd ei aelodau drwy ymweld â staff yng ngwahanol swyddfeydd yr LAA.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae ARAC yn cynghori'r Bwrdd ar faterion sydd yn ymwneud â risg, rheoli a llywodraethu, a defnyddio ei arbenigedd proffesiynol mewn materion ariannol, cyfreithiol a masnachol er mwyn herio a chefnogi'r LAA. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri NEBM, sydd hefyd yn aelodau o Fwrdd LAA. Nid oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau gweithredol.

Yn ystod 2018-19 mae ARAC wedi parhau i gynnal trosolwg cryf ac i herio datganiadau ariannol, cyfradd gwallau, diogelwch data a threfniadau dilyniant busnes LAA, gan dderbyn adroddiadau sicrwydd gan reolwyr ac archwiliadau mewnol ac allanol.

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u hatebolrwydd mae'r Bwrdd ac ARAC wedi darparu cymorth, her ac arweiniad sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Tîm Rheoli Gweithredol

Yr ELT yw'r uwch bwyllgor a nhw sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r LAA. Mae'r ELT yn gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth a rheoli'r LAA, yn cynnwys gallu a chapasiti'r LAA yn y dyfodol i gyflawni cynlluniau adrannol a chynlluniau'r Llywodraeth, a rheoli risgiau lefel corfforaethol yn strategol.

Mae'r ELT yn cynnal trosolwg lefel uchel ar reolaeth gweithredol yr LAA a chaiff gefnogaeth o ran ei gyfrifoldebau gan dri phwyllgor ac un pwyllgor ar y cyd gyda'r tîm Digidol ( gaiff ei westeio yn MoJ). Crëwyd y pwyllgorau yma i hwyluso trafodaethau mwy trylwyr a manwl ar faterion penodol, yn ogystal â chwblhau'r tasgau a ddirprwywyd gan yr ELT.

- Y Pwyllgor Gweithrediadau: Gwneud penderfyniadau ynghylch gweithredu cynigion polisi ac ynghylch optimeiddio prosesau busnes er mwyn darparu cymorth cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon - yn cynnwys y rhyngwyneb â darparwyr. Bydd yn adolygu ac yn herio perfformiad nad ydynt yn gyfyngedig i KPIau allanol ac yn goruchwylio'r gwaith o reoli risgiau gweithredol.

- Pwyllgor Cyllid a Risg: Cefnogi'r ELT mewn perthynas â'i gyfrifoldebau goruchwylio drwy ganolbwyntio ar brosesau cyllid a rheoli risg yn yr LAA. Mae'n gorff cynghori a herio fydd yn cefnogi'r Bwrdd, yr ELT, yr ARAC a'r busnes o ran rheoli risg.

- Pwyllgor Pobl: Darparu mewnbwn adeiladol sydd yn canolbwyntio ar fusnes, gwneud penderfyniadau a sicrwydd bod yr LAA yn cyflawni ei strategaeth pobl a'i gynlluniau galluedd a llesiant.

- Grŵp Aliniad Strategol: Fforwm ar y cyd â Digidol, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar y cyd mewn perthynas â buddsoddi mewn newid digidol, gyda chefnogaeth gan fyrddau sicrwydd er mwyn monitro darpariaeth a rheoli risg. Mae'r dull ar y cyd yma wedi disodli'r Pwyllgorau Newid a Buddsoddi, ac mae hynny yn adlewyrchu newid o ddarpariaeth oedd yn canolbwyntio ar brosiectau i ddull model gwasanaeth yn bennaf o fuddsoddi'n barhaus mewn digidol.

## Fframwaith rheoli mewnol

Dyluniwyd y system o reoli mewnol er mwyn rheoli risg ar lefel dderbyniol, yn hytrach na dileu pob risg mewn perthynas â chyflawni ei bolisïau, nodau ac amcanion. Yn seiliedig ar fframwaith sicrwydd yr LAA rwyf yn rhesymol sicr ynglŷn ag effeithiolrwydd y system reoli mewnol.

Mae'r Bwrdd, yr ELT a Chadeiryddion y Pwyllgorau yn fy nghynorthwyo mewn perthynas â stiwardio adnoddau'r LAA a'r gwaith o reoli ei risgiau. Rwyf yn derbyn sicrwydd ysgrifenedig gan fy Nirprwy Gyfarwyddwyr ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg ar ffurf datganiadau sicrwydd blynyddol. Hefyd, mae'r MoJ yn rhoi i ni blatfform cyffredin o systemau a pholisïau ac arbenigedd digidol, ariannol ac adnoddau dynol gaiff eu cymhwyso pan fo hynny'n briodol. Rwyf hefyd yn derbyn gwasanaeth archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sydd yn rhoi sicrwydd annibynnol i mi ynghylch effeithiolrwydd llywodraethiant, prosesau rheoli risg ac amgylchedd rheoli fy sefydliad.

## Pennaeth Barn Archwiliad Mewnol

Yn ystod rhaglen archwiliad 2018-19, graddiwyd yr holl archwiliadau fel 'Cymedrol' neu 'Sylweddol'. O blith y camau a gofnodwyd, roedd dau yn flaenoriaeth uchel a 30 yn flaenoriaeth cymedrol. Yn gyffredinol, mae hynny yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ei adroddiad blynyddol i'r LAA, nododd y Pennaeth Archwiliad Mewnol "mae'r rheolwyr wedi bod yn rhagweithiol o ran derbyn a gweithredu ar argymhellion allweddol er mwyn gwella camau rheoli a ddeilliodd o waith yr Archwiliad Mewnol". Mae camau'r rheolwyr yn parhau i gael eu monitro gan Sicrwydd LAA ac adroddir ar hynny i ARAC.

Yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn; ei wybodaeth am yr LAA a'i bresenoldeb yn ARAC, rhoddodd Pennaeth yr Archwilio Mewnol farn 'Cymedrol' ar fframwaith llywodraethu a rheoli risg yr Asiantaeth.

## Asesu risgiau a materion arwyddocaol

Fel sefydliad rydym wedi parhau i reoli'r risgiau parhaus ac annatod sydd yn gysylltiedig â'n amcanion strategol. Mae ARAC, yr ELT a'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a herio'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran rheoli a chyfyngu ar y risgiau a ddogfennir ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr LAA, sydd wedi canolbwyntio ar y risgiau mewnol, allanol a strategol allweddol mewn perthynas â chyflawni ein amcanion. Mae hynny wedi cynnwys risgiau mewn perthynas â, ond nid yn gyfyngedig i: gyllid, systemau yr LAA, sefydlogrwydd y farchnad, rheoli newid digidol a strwythurau a gweithrediadau.

Mae rheoli'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol wedi bod yn her arbennig oherwydd bod ei natur yn cael ei arwain gan alw. Rydym yn defnyddio model cydnerth ar gyfer rhagamcanu yn seiliedig ar ddata tuedd ynghyd ag efelychiadau o risgiau a chyfleoedd cyfredol. Roedd hynny yn ein galluogi i adnabod pwysau ar y Gronfa yn ystod 2018-19 ac i sicrhau ein bod yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllideb ychwanegol gan Drysorlys EM er mwyn bodloni angen y cyhoedd.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gydweithio gyda'n darparwyr cymorth cyfreithiol er mwyn cynnal sefydlogrwydd yn y farchnad drwy: reoli ein dibyniaeth ar seilwaith TG MoJ a systemau gwaddol LAA; a lleihau'r tebygolrwydd o dwyll a gwallau fydd yn gysylltiedig â Chronfa cymorth cyfreithiol.

Rydym yn gyfrifol am weithredu polisi cymorth cyfreithiol gaiff ei lunio fel rhan o swyddogaeth polisi cymorth cyfreithiol MoJ. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi MoJ er mwyn sicrhau bod trefniadau LAA a'n dull gweithredol yn gyson a chywir, a'u bod yn gydnaws â bwriad y polisi. Mae'r cynllun cymorth cyfreithiol a'r penderfyniadau a wneir o dan y cynllun yn destun craffu manwl ac fe gaiff ei herio'n rheolaidd gan ddarparwyr, eu cyrff cynrychioliadol, a chleientiaid. Mae gennym brosesau clir ar gyfer gwarchod annibyniaeth statudol y broses benderfynu sydd yn ofynnol o Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol mewn perthynas ag achosion unigol. O ystyried y risgiau annatod sydd yn gysylltiedig â heriau cyfreithiol sydd â gogwydd polisi cymorth cyfreithiol, rydym wedi trefnu cyfarfodydd wythnosol gyda rhanddeiliad LAA a MoJ fel bod materion yn cael eu hadnabod, yn cael eu cyfathrebu, ac y delir â nhw yn hwylus. Hefyd, mae tîm cyfreithiol LAA eisoes wedi cytuno ar egwyddorion 'canllawiau ffyrdd o weithio' gyda thîm cyfreithiol MoJ ac maent yn gweithio yn unol â'r egwyddorion hynny. Bydd y canllawiau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau yn fuan a byddant yn darparu mwy o eglurder ynghylch rolau'r ddau dîm wrth ddelio ag unrhyw heriau cyfreithiol i'r dyfodol mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir neu newid cyfeiriad polisi.

## Sefydlogrwydd y farchnad a systemau

Daeth Contract Sifil Safonol 2018 i rym ar 1 Medi 2018. Dyfarnwyd contractau i 1,578 o ddarparwyr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn cael eu darparu ar draws holl gategorïau'r gyfraith. Roedd hynny yn cynnwys ymgynghori â chyrff cynrychioliadol ar gynnwys contract newydd, cyn cynnal proses dendro anghystadleuol a gwblhawyd yn gynnar yn 2018. Roedd y prosiect hefyd yn cyflwyno contract Cymorth Cyfreithiol Sifil (CLA) 2018 ar gyfer darparu cyngor arbenigol dros y ffôn, ac estyniad i gontractau gwasanaethau Cynllun Dyletswydd Llys ynghylch Meddiannaeth Tai yn dilyn adolygiad barnwrol llwyddiannus o'r polisi. Mae'r LAA yn parhau i adolygu capasiti'r farchnad er mwyn sicrhau bod digon o ddarpariaeth gwasanaethau cymorth cyfreithiol ar gael ar draws y wlad a'i fod yn gweithredu'n gyflym i lenwi unrhyw fylchau a ganfyddir.

Gwasanaethau TG

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi symud ein holl geisiadau i drefniadau gwesteio newydd, ac mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau erbyn hyn yn cael eu gwesteio yn y cwmwl. Mae hynny wedi gwella diogelwch, cydnerthedd a chydnawsedd y rhan fwyaf o'n gwasanaethau yn sylweddol. Yn dilyn y newid hwnnw, cawsom rai problemau o ran sefydlogrwydd gyda'n gwasanaeth Rheoli Cleientiaid ac Achosion (CCMS). Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn gwella sefydlogrwydd a defnyddioldeb CCMS, ac rydym wedi gwella'r broses o fonitro'n gwasanaeth yn rhagweithiol er mwyn ein galluogi i ymateb i ddigwyddiadau yn gyflymach. Rydym hefyd wedi gwella amser adfer y gwasanaeth er mwyn lleihau'r amser segur pan fo digwyddiadau yn amharu arnom.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn dechrau cyflwyno'r gwasanaeth Ymgeisio am Gymorth Cyfreithiol Newydd, fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar CCMS ac yn gwella'r gwasanaeth i ddarparwyr a chleientiaid. Rydym hefyd yn gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau CCMS sylfaenol.

Mae sefydlogrwydd a pherfformiad cyffredinol y systemau Troseddu wedi bod yn gadarnhaol. Rydym wedi parhau i dderbyn adborth rhagorol ar gyfer gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth Hawlio Amddiffyniad mewn Llys y Goron, o ran y ffordd yr hawlir am gostau teithio. Enillodd y gwasanaeth Hawlio Amddiffyniad mewn Llys wobrau Di-Bapur mewn Llywodraeth 2018.

Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i wasanaethau Canfod Cynghorydd Cyfreithiol a Chyngor Cyfreithiol Sifil yn seiliedig ar adborth ein defnyddwyr.

Diogelwch Seiber

Mae'r LAA wedi parhau i roi pwyslais mawr ar ddiogelwch seiber a diogelwch ein data. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, bu dau ddigwyddiad oedd yn gysylltiedig ag ymosodiadau meddalwedd wystlo ar drydydd partïon y mae'r LAA yn gweithio gyda nhw. Bu i ni weithio'n agos gydag arbenigwyr diogelwch seiber MoJ ac roeddem yn gallu sefydlu nad oedd tystiolaeth o golli unrhyw ddata. Aethom ati i gynnal ymarferion gwersi a ddysgwyd ac adolygu prosesau fel rhan o'n ymateb i'r ddau ddigwyddiad. Rydym hefyd wedi cynnal nifer o ymarferion dilyniant busnes a rheoli digwyddiadau oedd yn canolbwyntio ar ymateb i ddigwyddiad diogelwch seiber posibl.

Mae symud gwasanaethau LAA i drefniadau gwesteio newydd wedi gwella ein diogelwch yn sylweddol. Mae timau penodol sydd yn gweithio ar y platfformau a chymwyseddau LAA wedi sefydlu cynlluniau gwella parhaus er mwyn sicrhau bod y platfformau yn cael eu hymgorffori, eu diweddaru a'u cynnal yn briodol o safbwynt diogelwch.

Mae'r LAA yn mabwysiadu dull MoJ Digidol ehangach o reoli risgiau diogelwch seiber, ac o ddiogelu gwasanaethau critigol drwy wella technoleg sylfaenol yn unol â pholisïau a chanllawiau'r Ganolfan Diogelwch Seiber Genedlaethol. Er mwyn sicrhau bod risgiau yn y maes yma yn cael eu rheoli'n barhaus, mae ein Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn adolygu risgiau a cynlluniau unioni yn gyfnodol gyda LAA Digidol a thimau gweithredol drwy ein Bwrdd Risg a Diogelwch Gwybodaeth mewnol, ac mae Ymarferydd Sicrwydd Gwybodaeth Dechnegol yn rhan o dimau LAA Digidol er mwyn rhoi cyngor ar arferion gorau mewn perthynas â diogelwch.

Cyfradd gwallau

Mae cymhlethdod cymorth cyfreithiol yn golygu bod yna risg annatod o wallau o ganlyniad i asesiadau cymhwysedd anghywir neu daliadau anghywir. Craffir ar hynny yn barhaus ac fe'i rheolir fel rhan o'n trefniadau stiwardio. Mae ein prosesau ymgeisio a thaliadau yn destun newidiadau polisi a gweinyddol. Fel ymateb i hynny rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau gwallau mewn ffordd sefydlog a chynaliadwy drwy weithio'n agos gyda'n darparwyr, a chydweithio ar draws ein timau rheoli contractau, rheoli achosion, cyllid a digidol er mwyn clustnodi a mynd i'r afael â tharddiad y problemau ac atgyfnerthu camau rheoli mewnol a chydymffurfiaeth darparwyr. Hefyd, pan fyddwn yn canfod bod taliad penodol yn anarferol, byddwn yn adolygu ac yn adfer taliadau o'r fath.

Materion penodol i'w hamlygu eleni:

- Risg parhaus o wallau mewn perthynas ag Uwch Asesiadau Troseddau o ganlyniad i anhawster dilysu Tudalennau Tystiolaeth Erlyniad a gyflwynir yn ddigidol. Mae canllawiau adolygedig a hyfforddiant ychwanegol i weithwyr achos wedi helpu i leihau effaith y broblem hon a lleihau'r gyfradd gwallau yn gyffredinol mewn perthynas â Throseddu Uwch;

- Mae gwerth gwallau wedi lleihau mewn perthynas â bilio am Gynrychiolaeth Sifil o ganlyniad i well canllawiau, pwyslais parhaus ar wella ansawdd a gwella'r system reoli achosion;

- Mae lefel y gwallau a ganfuwyd mewn gwaith ar Droseddu Is wedi lleihau ymhellach yn ystod 2018-19, ar ôl archwilio'n fanwl i ddarparwyr, mwy o ordaliadau yn cael eu hadfer, ac addysg darparwyr

- Roedd cyfradd gwallau net ein Help Cyfreithiol yn 0.00% yn 2018-19, er bod yna gynnydd yn lefel y gwallau gros yn y categori Mewnfudo. Er mwyn lliniaru hynny rydym wedi mireinio archwiliadau darparwyr ac addysg darparwyr.

Amcangyfrifir mai gwerth  ein gwallau gros oedd £17.9m (o'i gymharu â £22,0m yn 2017-18). Mae ffocws ar wella parhaus ac adfer gordaliadau wedi helpu i leihau'r lefel gwallau mwyaf tebygol i lefel net o £11.om neu 0.65% o'r gwariant (2017-18: £13.7m neu 0.8% o'r gwariant). Yn seiliedig ar y technegau samplo ystadegol a ddefnyddiwyd, mae gennym hyder o 95% bod y gwir lefel gwallau yn rhwng 0.38% a 0.92% o wariant cymorth cyfreithiol.

Yn ychwanegol at nodi achosion pan dalwyd mwy i ddarparwyr nag y gellir ei gyfiawnhau yn rhesymol, mae ein hadolygiadau profi hefyd yn nodi achosion o dandaliadau. Yn 2018-19 amcangyfrifir bod ein tandaliadau yn 0.1% o gyfanswm gwariant cymorth cyfreithiol (o'i gymharu â 0.05% yn 2017-18).

Twyll

Mae diweddariadau am Atal Twyll yn eitem sefydlog ar yr ARAC ac mae'r materion mwyaf arwyddocaol yn cael sylw'r Bwrdd. Mae ein polisi twyll a'n strategaeth atal twyll yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac adroddir yn fisol ar y cynllun gweithredu ar dwyll a gweithgaredd atal twyll..

Rydym yn codi ymwybyddiaeth o dwyll ymysg ein pobl a rhanddeiliaid drwy ddefnyddio cyflwyniadau, gweithdai, erthyglau mewnrwyd a chyngor.

Mae'r LAA yn parhau i westeio Swyddogaeth Gwrth Dwyll ac Ymchwiliadau MoJ, a hynny fel cydnabyddiaeth o arbenigedd a gwaith llwyddiannus LAA. Rydym yn parhau i feithrin perthynas waith agos gyda DWP, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a rhanddeiliaid ehangach er mwyn casglu gwybodaeth, rhannu data a hysbysu ein camau atal ac erlyn yn well. Rydym yn cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r CPS er mwyn sicrhau bod safonau ac arferion ffeilio cenedlaethol yn cael eu dilyn. Rydym yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac yn gweithio'n agos â'r Swyddfa Cabinet ar amrywiaeth o gamau canfod ac atal twyll.

Mae'r LAA yn bodloni Safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Atal Twyll, Llwgr Wobrwyo a Llygredd.

**The LAA's counter fraud activity during 2018-19 resulted in the recovery or preservation of**

**£1.03 million** of public funds

compared to **£759,000** in 2017-18

**In 2018-19**



**the LAA continued to apply its risk based approach to preventing, identifying and investigating suspected fraud**

Chwythu'r chwiban


Gallaf gadarnhau ein bod, yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, wedi derbyn dau adroddiad a ystyriwyd fel achosion chwythu'r chwiban. Ymchwiliwyd i un achos ac fe'i cwblhawyd heb fod angen cymryd camau rheoli, ac mae'r llall yn mynd rhagddo.

Bu i ni gymryd rhan yn Niwrnod Ymwybyddiaeth Chwythu'r Chwiban y Gwasanaeth Sifil ar 20 Medi 2018, oedd yn cynnwys digwyddiadau a gwybodaeth i staff, ac roedd adnoddau ar gael i staff ar dudalennau rhyngrwyd LAA. Roedd yr adnoddau hynny yn cynnwys blog gan Swyddog Chwythu'r Chwiban Dynodedig MoJ.

Roedd MoJ hefyd yn hyrwyddo chwythu'r chwiban fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Dwyll a Chwythu'r Chwiban ym Mawrth 2019, oedd hefyd yn cynnwys staff LAA.

Sicrwydd gwybodaeth a diogelwch data

Mae'r LAA yn trafod symiau uchel o ddata personol sydd yn eiddo i'w gleientiaid bob diwrnod. Felly rydym yn ymdrin â diogelwch gwybodaeth yn ddifrifol iawn ac yn anfon ein pobl i gwblhau hyfforddiant mandadol ynglŷn â'u cyfrifoldebau mewn perthyna â thrin gwybodaeth. Ymchwilir i bob digwyddiad er mwyn sicrhau bod tarddiad problemau yn cael eu nodi a'u hunioni pan fo'n bosibl. Hefyd, mae ARAC yn herio ein perfformiad o ran rheoli digwyddiadau gan ddarparu cyfeiriad a throsolwg.




Yn 2018-19 adroddwyd am 119 o ddigwyddiadau oedd yn gysylltiedig â data personol. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol yr ydym wedi cofnodi nifer gostyngedig o ddigwyddiadau. Mae'r gostyngiad yma yn adlewyrchu'r gweithgaredd parhaus er mwyn cynnal ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'n staff mewn perthynas â thrin data cleientiaid, ynghyd â mwy o allu i ryngweithio'n electronig gyda'n Darparwyr.

Ni fu unrhyw ddigwyddiad oedd angen adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

| CATEGORI | NATUR Y DIGWYDDIAD | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig , dyfeisiadau neu ddogfennau papur nad oeddent wedi eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y Llywodraeth. | 23 | 38 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiadau neu ddogfennau papur nad oeddent wedi eu diogelu'n ddigonol o du allan i adeiladau diogel y Llywodraeth. | 14 | 17 |
| III | Gwaredu offer electronig, ddyfeisiadau neu ddogfennau papur yn anniogel nad oeddent wedi eu diogelu'n ddigonol | 0 | 0 |
| IV | Datgeliad anawdurdodedig | 69 | 73 |
| V | Arall (diffyg cydymffurfio â pholisi) | 13 | 9 |

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Ers Mai 2018 pryd y daeth Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 i rym yn y DU, rydym wedi parhau i gynnal gweithgareddau arwyddocaol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r deddfau newydd ac i'r dyfodol hefyd. Mae ein cydweithwyr digidol wedi bod yn parhau i weithio ar sicrhau bod ein systemau TG yn cydymffurfio o ran y ffordd y mae data personol yn cael ei storio ac am ba hyd. Fel rhan o'n gwaith i wella ein prosesau, rydym yn rhoi dulliau cadarnach ar waith mewn perthynas â thrin data a throsglwyddo data drwy, er enghraifft, archwilio cyfleoedd i amnewid defnydd gweddilliol o gludwyr gyda mwy o fynediad uniongyrchol at ffynonellau ffeiliau digidol.

We are committed to complying with the new laws and meeting both the expectations of the Information Commissioner's Office (ICO) and the public. I am confident that the work we have undertaken in this area continues to strengthen the necessary safeguards for the personal data we hold.

Casgliad

Rwyf yn hyderus bod y datganiad yma yn gofnod cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu a rheoli risg yr ydym wedi eu hymgorffori yn LAA. Rwyf yn arbennig o falch bod ein Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi barn Gymedrol ac wedi cydnabod bod hynny yn welliant o'i gymharu â llynedd. Mae llwyddiant y trefniadau hyn yn deillio o'r bobl a'r prosesau sydd gennym, sydd wedi sicrhau bod LAA wedi bodloni ei amcanion busnes ac yn parhau i fod yn lle cefnogol ac arloesol i weithio ynddo fel yr adlewyrchir hynny yng nghanlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
27 Mehefin 2019

# Adroddiad ar Gydnabyddiaethau a Staff

Mae'r bennod hon yn crynhoi polisi LAA ynghylch cydnabyddiaethau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a NEBMau a staff. Mae hefyd yn darparu manylion o wir gostau a threfniadau contract.

Mae'r adroddiad ar Gydnabyddiaethau a Staff wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol fel y'i cyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Y Prif Weinidog sydd yn pennu Polisi Cydnabyddiaethau ar gyfer Uwch Weision Sifil (SCS) ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Pennwyd cyflogau aelodau Bwrdd Gweithredol LAA yn dilyn trafodaeth rhwng Ysgrifennydd Parhaol MoJ a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn unol â rheolau Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan LAA Bwyllgor Cydnabyddiaethau. Pwyllgor Gweithlu'r MoJ sydd yn delio â swyddogaethau allweddol y pwyllgor hwn. Yr Ysgrifennydd Parhaol sydd yn cadeirio Pwyllgor Gweithlu'r MoJ ac fe'i mynychir gan  Gyfarwyddwyr Cyffredinol a Phrif Weithredwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, HMCTS a LAA. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn fisol er mwyn rheoli talent, galluedd ac adnoddau pobl. Hefyd, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod gan LAA weithlu o'r maint priodol, sydd â'r sgiliau priodol, ei fod yn cael ei reoli'n dda ei ysgogi'n briodol a'i ddefnyddio'n gywir.

Mae'r tablau yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun archwiliad gan yr archwiliwr allanol, y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

# Polisi Cydnabyddiaethau

## Aelodau'r Bwrdd Gweithredol

Contractau Gwasanaeth
Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud y ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn seiliedig ar deilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan fo penodiadau'n gallu cael eu gwneud fel arall.

Mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol sy'n gynwysedig yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi penagored. Byddai diddymu swyddi yn gynnar, ac eithrio yn achos camymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn ennill iawndal fel y nodir hynny yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae mwy o wybodaeth am waith y Comisiwn Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicecommission.org.uk

Proses perfformio
Mae SCS yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet sydd yn ymgorffori Fframwaith Rheoli Perfformiad SCS. Cynhaliwyd dwy drafodaeth Adolygiad Rheoli Perfformiad (PMR) ffurfiol yn ystod y flwyddyn, ac yna cyfarfodydd un i un rheolaidd er mwyn monitro cynnydd a sicrhau bod yr holl amcanion yn dal yn berthnasol. Bodlonwyd y mesurau perfformiad ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

Cyfanswm cyflogau a ffioedd
Mae cyflog a lwfansau yn cynnwys symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy, ac maent yn cynnwys cyflogau gros, hawliau a gadwyd mewn perthynas â pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat neu lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun trethu yn y DU ac unrhyw daliadau ex-gratia. Nid yw hynny'n cynnwys symiau sydd yn ad-daliadau o gostau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol mewn perthynas â pherfformio dyletswyddau unigolyn.

Holl fuddion trethadwy
Mae buddion trethadwy yn cynnwys holl fuddion mewn nwyddau a buddion arian trethadwy. Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw nwyddau a roddwyd gan y cyflogwr y mae Cyllid a Thollau EM yn ei ystyried fel enillion trethadwy. Mae buddion a gydnabyddir yn gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth. Mae'r buddion mewn nwyddau a nodwyd ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a NEBMau yn amcangyfrifon; bydd LAA a HMRC yn cytuno ar y gwerthoedd terfynol, a byddant yn cael eu talu gan ddefnyddio Cytundeb Setliad PAYE.

Taliadau Bonws
Mae bonwsau yn seiliedig ar lefel perfformiad a gyrhaeddwyd, ac fe'i rhoddir fel rhan o'r broses werthuso. Mae bonysau yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn y maent yn daladwy i'r unigolyn.

Mae'r bonwsau a gofnodir yn ystod 2018-19 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2017-18 ac mae'r bonwsau a gofnodir ar gyfer 2017-18 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2016-17.

Holl fuddion cysylltiedig â phensiwn
Mae Adran 229 Deddf Cyllid 2004 yn pennu uchafswm blynyddol y cynilion pensiwn y gellir ei gronni o dan drefniant buddion diffiniedig cyn y codir unrhyw dreth. Swm y cynilion a ddangosir yn Nhabl A yw'r cynnydd yng ngwerth buddion yr unigolyn a addawyd yn ystod cyfnod

mewnbwn y pensiwn (sef blwyddyn ariannol LAA). Y cynnydd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth buddion unigolyn ar ddechrau cyfnod mewnbwn y pensiwn (1 Ebrill 2018) a gwerth buddion yr unigolyn ar ddiwedd cyfnod mewnbwn y pensiwn (31 Mawrth 2019); mae hynny hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn cyflog pensiynadwy.

Mae rheoliadau yn nodi addasiad i reolau HMRC at y diben yma, er mwyn gwerthuso'r buddion mae Trysorlys EM wedi rhoi cyngor i gynlluniau pensiwn ddefnyddio 20 fel lluosydd.

## Aelodau'r Bwrdd Anweithredol

Daeth ail dymor a thymor olaf y tri Aelod Bwrdd Anweithredol (NEBM) a benodwyd yn 2012 i ben yn ystod 2018-19. O ganlyniad i hynny, recriwtiwyd tri NEBM newydd drwy gystadleuaeth agored yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Maent yn cael eu penodi ar deilyngdod ac fel cydnabyddiaeth o'u gallu a'u profiad gan banel yn cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol MoJ ac arbenigwyr pwnc dirprwyedig fel sy'n briodol. Penodwyd y NEBMau gan y Prif Weithredwr am gyfnod penodol o dair blynedd; dechreuodd dau ar eu tymor yn 2018-19, a bydd un yn dechrau ar 1 Ebrill 2019.

Nid yw NEBMau yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn unrhyw fuddion neu gydnabyddiaethau eraill.

Os terfynwyd penodiad NEBM am unrhyw reswm ac eithrio bod y tymor wedi dod i ben, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder benderfynu bod iawndal yn daladwy yn seiliedig ar natur y terfynu a hyd y tymor sydd ar ôl.

Mae manylion mewn perthynas â thelerau gwasanaeth NEBM, buddion a chydnabyddiaethau ar gael yn Nhabl E ac F ac ar dudalen 58.

## Tabl A: Uwch gyflogeion mewn swydd ar 31 Mawrth 2019 - Costau cyflogaeth (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | 2018-19 | | | | | 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf ) | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf ) | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf ) | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf ) | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf ) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Shaun McNally, Prif Weithredwr CBE Cadeirydd Bwrdd LAA | 95-100 | 46.9[1,5] | 10-15 | 30 | 180-185 | 95-100 | 44.2 | 10-15 | 19 | 170-175 |
| Lorna Maden[4] Cyfarwyddwr Cyllid Interim (o 21/11/2018) | 35-40 (105-110 FYE) | – | 5-10 | 29 | 75-80 | – | – | – | – | – |
| Ruth Wayte[2] Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol i LAA (tan 15/03/2019) | 85-90 (100-105 FYE) | – | – | 35 | 120-125 | 90-95 (100-105 FYE) | – | – | 34 | 125-130 |
| Adrian Hannell[4] Cyfarwyddwr Cyllid Interim Grŵp Gweithrediadau (tan 16/11/2018) | 60-65 (95-100 FYE) | – | 5-10 | 24 | 95-100 | 95-100 | – | 5-10 | 37 | 140-145 |
| Jane Harbottle[3] Pennaeth Rheoli Achosion Sifil a Throseddol | 75-80 | 10.7[3,6] | 5-10 | 33 | 130-135 | 75-80 | 13.7[3,6] | 5-10 | 19 | 120-125 |
| Hannah Payne Pennaeth Trawsnewid LAA (o 27/09/2018) | 20-25 (70-75 FYE) | – | – | 12 | 30-35 | – | – | – | – | – |
| David Thomas[7] Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoli Contractau a Sicrwydd | 65-70 | – | – | 23 | 90-95 | 70-75 | – | – | 58 | 125-130 |

| | 2018-19 | | | | | 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf ) | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf ) | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf ) | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf ) | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf ) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Samantha Milton Head of the Public Defence Service (until 28/06/2018) re-appointed (26/ 03/2019) | 15-20 (70-75 FYE) | – | – | 15 | 30-35 | 30-35 (70-75 FYE) | – | – | 7 | 35-40 |
| Paul Henson[9] Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Interim Grŵp LAA, OPG, CICA, CFO (tan 1/12/2018) | 45-50 (70-75 FYE) | – | – | 19 | 65-70 | 30-35 (FYE 70-75) | – | – | 12 | 40-45 |
| Naomi Abigail[8] Cadeirydd Pwyllgor Pobl (26/07/2018-26/03/2019) | 45-50 (70-75 FYE) | – | 5-10 | 22 | 75-80 | – | – | – | – | – |

1. Fel Prif Weithredwr, nodwyd trefniant gweithlu deuol, ac mae'r costau uchod yn dangos y buddion mewn nwyddau ar gyfer yr holl deithio i ac o leoliadau gweithle deuol.
2. Mae Ruth Wayte yn cael cydnabyddiaeth drwy Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ac fe'i cyflogir yn rhan amser (0.91 FTE) a gadawodd y Bwrdd ar 15 Mawrth 2019.
3. Mae gan Jane Harbottle drefniant gweithlu deuol, ac mae'r costau yn dangos y buddion mewn nwyddau ar gyfer yr holl deithio i ac o leoliadau gweithle deuol.
4. Mae Adrian Hannell a Lorna Maden yn cael cydnabyddiaeth drwy Adran Graidd MoJ, ac nid ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan LAA.
5. £2.0k of 'All taxable benefits' were reimbursed in cash through I-expenses.
6. Cafodd £5.0k o 'Holl fuddiannau trethadwy' eu had-dalu mewn arian parod drwy i-dreuliau.
7. Gadawodd David Thomas y Bwrdd ar 28 Mehefin 2018 ac fe'i ailbenodwyd ar 1 Rhagfyr 2018. Mae'r gydnabyddiaeth a dderbyniodd uchod ar gyfer y flwyddyn gyfan.
8. Mae buddion Samantha Milton sydd yn gysylltiedig â phensiwn yn 2017-18 wedi cael eu hadolygu o ganlyniad i newidiadau i lwfans ôl-weithredol.
9. Mae Paul Henson yn gyflogedig gan MoJ, a chaiff ei gydnabyddiaeth drwy Adran Graidd MoJ. Mae Paul yn gweithio gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Tabl B: Cydnabyddiaethau bandog yr Aelod Bwrdd Gweithredol â'r cyflog mwyaf (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth yr Aelod Bwrdd Gweithredol â'r cyflog mwyaf, ac eithrio buddion pensiwn (£000) | 160-165 | 150-155 |
| Canolrif cyfanswm cydnabyddiaethau (£) | 22,124 | 21,810 |
| Cymhareb | 7.3:1 | 7.0 :1 |

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflogau'r Aelodau Bwrdd Gweithredol sydd â'r cyflogau uchaf yn eu sefydliad â chanolrif enillion gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth fandog yr Aelod Bwrdd Gweithredol â'r cyflog uchaf yn LAA yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 oedd £160-165k (2017-18: £150k-155k). Roedd hynny 7.3 gwaith cymaint (2017-18: 7.0) â chanolrif cydnabyddiaethau'r gweithlu, sef £22,124 (2017-18: £21,810).

Yn ystod 2018-19 ni dderbyniodd unrhyw aelod staff neu gontractwr (2017-18: 0) gydnabyddiaeth fandog oedd yn uwch na'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol â'r cyflog mwyaf.

Roedd cydnabyddiaethau staff yn amrywio o £15-20k i £140k-145k (2017-18: £10-15k i £140k-145k).

Nid yw'r ffigyrau yma yn cynnwys unrhyw daliad diswyddo mewn perthynas â dileu swyddi gorfodol ac ymadawiadau cynnar gwirfoddol a ddatgelwyd yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 59.

Mae cyfanswm cydnabyddiaethau yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau, yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, a gwerth cyfatebol trosglwyddo pensiynau mewn arian.

Tabl C: Aelodau'r Bwrdd Gweithredol - Contractau cyflogaeth

| Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | Dyddiad cychwyn y contract | Tymor a wasanaethwyd (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Shaun McNally CBE | 22 Hydref 2012 | 5 | 3 |
| Lorna Maden | 12 Tachwedd 2018 | 0 | 3 |
| Hannah Payne | 1 Gorffennaf 2018 | 0 | 3 |
| Jane Harbottle | 1 Ebrill 2016 | 3 | 3 |
| David Thomas | 16 Ionawr 2017 | 2 | 3 |
| Samantha Milton | 20 Mawrth 2017 | 2 | 3 |

# Buddion Pensiynau Gwasanaeth Sifil

## Cyflwyno Alpha

Mae'r buddion pensiwn yn cael eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yn uwch).

O'r dyddiad hwnnw bu i'r holl weision sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai oedd eisoes yn y gwasanaeth ymuno ag Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi i bedair rhan o'r PCSPS, 3 yn darparu buddion yn seiliedig ar gyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol plws) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion yn seiliedig ar yrfa gyflawn (Nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Roedd aelodau presennol PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn eu hadrannau perthnasol yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng

10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 y symud i Alpha rhyw ben rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022.

Bydd yr holl aelodau a ymrestrodd gydag Alpha yn cael 'bancio' eu buddion PCSPS a gadwyd. Bydd aelodau sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn derbyn y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael Alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu Alpha - fel fo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn PCSPS ac Alpha, mae'r ffigwr a roddir yn werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

## Cyllid PCSPS

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a thelir am gostau buddion gan arian a bleidleisir gan y senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan clasurol, premiwm, clasurol plws, Nuvos ac Alpha yn cael eu codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiwn.

## Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogeion

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio o rhwng 4.60% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol plws, Nuvos a holl aelodau Alpha.

## Buddion Cynllun Pensiwn

Mae buddion clasurol yn crynodi ar gyfradd o 1/80 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae lwmp swm sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad.

Mae buddion premiwm yn crynodi ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i clasurol, nid oes lwmp swm awtomatig.

Mae clasurol plws yn ei hanfod yn gyfuniad gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 a gyfrifir yn fras fel yn achos clasurol, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 a gyfrifir fel yn achos premiwm.

Yn Nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael credyd o 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, a bydd y pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiwn.

Mae buddion yn Alpha yn cynyddu mewn ffordd debyg i Nuvos, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%.

Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn (mudo) am lwmp swm hyd at y cyfyngiadau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

## Cyfrif Pensiwn Partneriaeth

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% yn ychwanegol o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am gostau sicrwydd buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeoliad oherwydd gwaeledd).

Y pensiwn cronedig a roddir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan mae'n cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a clasurol plws, 65 ar gyfer aelodau o Nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau o Alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu Alpha - fel bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn PCSPS ac Alpha, mae'r ffigwr a roddir yn werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

I gael mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i:
www.civilservicepensionscheme.org.uk

Tabl D: Aelodau'r Bwrdd Gweithredol - Costau pensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2019 a lwmp swm cysylltiedig | Gwir symudiad mewn pensiwn a lwmp swm cysylltiedig sydd yn daladwy ar oedran pensiwn | CETV1 ar 31 Mawrth 2019 | CETV1 ar 31 Mawrth 2019 | CETV1 ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | | £000 | £000 | £000 |
| Shaun McNally CBE | Pensiwn 40-45Lwmp Swm 105-110 | Pensiwn 0-2.5 Lwmp Swm 0 | 814 | 709 | 14 |
| Lorna Maden | Pensiwn 30-35 Lwmp Swm 90-95 | Pension 0-2.5 Lwmp Sum 2-5.5 | 735 | 681 | 29 |
| Ruth Wayte | | 0-2.5 | 177 | 135 | 20 |
| Adrian Hannell | CETV1 ar | 0-2.5 | 62 | 40 | 11 |
| Jane Harbottle | 31 Mawrth 2019 | | 375 | 309 | 16 |
| Hannah Payne | | 0-2.5 | 67 | 51 | 4 |
| David Thomas | | 0-2.5 | 198 | 156 | 6 |
| Samantha Milton | CETV ar 31 March 2018 | | 325 | 313 | 9 |
| Paul Henson | | 0-2.5 | 23 | 12 | 5 |
| Naomi Abigail | Pensiwn 15-20 Lwmp Swm 30-35 | Pension 0-2.5 Lump Sum 0-2.5 | 230 | 191 | 9 |

1 Mae symiau CETV yn gysylltiedig â phryd yr ymunodd Aelod o'r Bwrdd Gweithredol â'r Bwrdd.

Lwmp Swm 0-2.5

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafiedig, a aseswyd gan actiwariaid, buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg penodol. Mae'r budd a werthusir hefyd yn cynnwys unrhyw bensiwn amodol y priod sy'n daladwy o'r cynllun. Pan fo aelod yn gadael ei gynllun ac yn dewis trosglwyddo eu buddion crynodedig, gwneir taliad CETV gan y cynllun i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â buddion a gronnwyd yn ystod cyfanswm aelodaeth gyda'r cynllun, ac mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn a drosglwyddwyd i'r PCSPS o'r trefniadau pensiwn eraill. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiedig) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwir neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes sydd efallai yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

### Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hynny yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr, ac eithrio effaith amrywiadau mewn gwerth trosglwyddo, megis symudiadau yn y farchnad fuddsoddi. Nid yw hynny yn cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a grynhoir yn unol â chwyddiant neu gyfraniad a delir gan y cyflogwr, ond mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn arall. Defnyddir ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Aelodau'r Bwrdd Anweithredol

Roedd NEBMau yn aelodau rhan amser ac roedd eu rôl yn cynnwys ymrwymiad o 20 diwrnod y flwyddyn yn ystod 2018-19. Byddant yn dal eu swyddi hyd at ddiwedd y cyfnod y'u penodwyd ar ei gyfer.

### Costau cyflogaeth - NEBMau

Tabl E : NEBMau mewn swydd ar 31 Mawrth 2019 - Costau cyflogaeth (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| Aelodau'r Bwrdd Anweithredol | 2018-19 | | 2017-18 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ffioedd | Holl fuddion trethadwy [2] | Cyfanswm Ffioedd | Holl fuddion trethadwy [2] |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| John Grosvenor<br>Cadeirydd ARAC r | 10.4[1] | 0.6[3] | 10.4[1] | 0.5[3] |
| Eric Gregory<br>(tan 31 Rhagfyr 2018) | 6.0 | 0.3[3] | 8.0 | 0.7[3] |
| Andrew Lockley<br>(tan 31 Ionawr 2019) | 6.6 | 0.83 | 8.0 | 1.4[3] |
| Calum Mercer<br>Cadeirydd ARAC (o 1 Ionawr 2019) | 2.6[1]<br>(10.4 FYE) | 0 | n/a | n/a |
| Deep Sagar<br>(o 1 Rhagfyr 2018) | 2.6<br>(8.0 FYE) | 0 | n/a | n/a |

1. Mae'r gydnabyddiaeth yn cynnwys £2,400 (2017-18: £2,400) fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) LAA
2. The cost of expenses varies according to the distance between the NEBMs home and the LAA's office, other travel commitments required by their role, and the time commitment of the individual NEBM. NEBMs were reimbursed for travel and other expenses including any taxation paid on those expenses.
3. Yn achos Aelodau'r Bwrdd Anweithredol mae'r costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd, o dan reolau HMRC, yn destun Treth Incwm ac Yswiriant Cenedlaethol, ac mae hynny yn daladwy i LAA gan ddefnyddio Cytundeb Setliad PAYE.

### Contractau cyflogaeth - NEBMau

Table F: NEBMs – Employment contracts

| Aelodau'r Bwrdd Anweithredol | Dyddiad cychwyn y contract | Tymor a wasanaethwyd (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| John Grosvenor | 1 Tachwedd 2012 | 6 |

| Aelodau'r Bwrdd Anweithredol | Dyddiad cychwyn y contract | Tymor a wasanaethwyd (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| Eric Gregory | 1 January 2013 | 6 |
| Eric Gregory | 1 Ionawr 2013 | 6 |
| Andrew Lockley | 31 Ionawr 2013 | 0 |
| Calum Mercer | 1 Ionawr 2019 | 0 |
| Deep Sagar | 1 Rhagfyr 2018 | |

Derbyniodd John Grosvenor, Eric Gregory ac Andrew Lockley estyniadau contract o dair blynedd yn ystod 2015-16, a daw eu tymor i ben yn 2018-19. Penodwyd Calum Mercer a Deep Sagar am gyfnod o dair blynedd yn ystod 2018-19 yn lle'r NEBMau a ddaeth i ddiwedd eu cyfnod.

# Adroddiad staff

## Costau Staff

Tabl G : Costau staff ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | 2018-19 | | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm |
| | Arall | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau[2] | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | | 36,209 | 830 | 37,039 |
| Costau nawdd cymdeithasol[2] | Arall | | 3,502 | 3,690 | – | 3,690 |
| Costau pensiwn arall[2] | Cyfanswm | – | 6,676 | 6,780 | – | 6,780 |
| | 44,838 | 485 | 45,323 | 46,679 | 830 | 47,509 |
| Cost/(symiau derbyniadwy) mewn perthynasâsecondiadau o'r adran[2] | 23 | – | 23 | (53) | – | (53) |
| Dileu swydd[i1] | – | – | – | 37 | – | 37 |
| | 44,861 | 485 | 45,346 | 46,663 | 830 | 47,493 |
| Costau Swyddogion Anweithredol | | | | | | |
| Ffioedd i'r Bwrdd Anweithredol | 30 | – | 30 | 29 | – | 29 |
| | 30 | – | 30 | 29 | – | 29 |
| Cyfanswm | 44,891 | 485 | 45,376 | 46,692 | 830 | 47,522 |

1 Mae'r costau dileu swyddi a ddatgelir uchod yn gysylltiedig ag un (2017: 3) staff cyfwerth â llawn amser, talwyd hynny gan MoJ ac felly ni ysgwyddwyd unrhyw gostau gan LAA yn uniongyrchol..

2 Mae costau staff wedi gostwng yn ystod y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i Arweinyddiaeth Swyddogaethol a staff yn cael cydnabyddiaeth drwy Adran Graidd MoJ.

Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig aml gyflogwr na ariennir nad yw'r LAA yn gallu clustnodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sydd yn gysylltiedig ag ef. Cynhaliwyd gwerthusiad llawn gan actiwariaid ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Yn achos 2018-19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £6,716k yn daladwy i PCSPS (2017-19: £6,605k) ar un o bedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% (2017-18: 20.0% i -24.5%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyflawn. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, ac nid pan fo angen talu'r costau, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniadau cyflogwr. Talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £145k (2017-18: £0) i un eu ragor o'r panel o banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd.

Dim pensiynau (2017-18: 1) o ganlyniad i ymddeoliad cynnar seiliedig ar waeledd; roedd cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn £dim (2017-18: £dim).

## Niferoedd Staff

Tabl H : Cyfartaledd nifer y bobl a gyflogir ( yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | 2018-19 | | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol Staff | Arall | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol Staff | Arall | Cyfanswm |
| Staff a gyflogir yn uniongyrchol | 1,198 | – | 1,198 | 1,203 | – | 1,203 |
| Arall | – | 17 | 17 | – | 20 | 20 |
| Staff yn gweithio ar brosiectau cyfalaf | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm | 1,198 | 17 | 1,215 | 1,203 | 20 | 1,223 |

Tabl I : Cyfansoddiad Staff (yn ddarostyngedig i archwiliad)

| | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|
| Cyfansoddiad staff | 515 | 732 |

## Cyfansoddiad staff



## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn amcanu at ddenu a chadw gweithlu amrywiol ar bob gradd, sydd yn adlewyrchu cymdeithas, sydd â'r cryfderau a'r medrusrwydd sydd ei angen arnom er mwyn gweithio gyda'n darparwyr cymorth cyfreithiol a'r cleientiaid cymorth cyfreithiol yr ydym yn eu gwasanaethu, tra'n parhau i sicrhau ein bod yn darparu triniaeth deg, deilliannau teg a mynediad cyfartal i ddefnyddwyr ein gwasanaeth.

Mae gan LAA ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a meithrin perthnasoedd da. Rydym yn sicrhau bod hynny yn gymwys i'r holl swyddogaethau ar draws yr LAA.

Yn Arolwg y Bobl y Gwasanaeth Sifil 2018-19 daethom yn 4ydd o'r 102 o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil a gyfranogodd mewn perthynas â thegwch a chynhwysiant.

Rydym yn parhau gyda'n hymdrechion i feithrin diwylliant cynhwysol gyda chefnogaeth ein rhwydwaith gweithgar o hyrwyddwr amrywiaeth LAA, Cynghreiriaid Iechyd Meddwl, Rhwydweithiau Staff LAA sydd yn cynnwys rhyw, oedran, gofalwyr a gweithwyr rhan amser, yn ogystal ag aelodau o rwydweithiau ehangach MoJ. Rydym yn dwyn sylw at ymgyrchoedd cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn er mwyn mynd ati i hyrwyddo cynhwysiant, yn cynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, ac yn cefnogi hyrwyddwyr lleol er mwyn hyrwyddo materion o ddiddordeb lleol, megis cymorth i ofalwyr. Mae ein Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn parhau i gynyddu gwelededd materion a chynhyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â rhyw, hil, anabledd, oedran, gofalwyr, LGBT, ffydd a gweithio rhan amser.

Roedd ein gweithgareddau allweddol yn ystod 2018-19 yn cynnwys:


- Ymgorffori cynnwys mewn perthynas â thaclo rhagfarn a Hyder Anabledd wrth gyflwyno hyfforddiant i reolwyr ar ddefnyddio Proffiliau Llwyddiant.
- Cefnogi cydweithwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gael mynediad at gynlluniau LAA, MoJ a chynlluniau Datblygu'r Gwasanaeth Sifil.
- Datblygu pecyn hyfforddiant er mwyn hyrwyddo diwylliant cynhwysol mewn timau a meithrin hyder i herio ymddygiad amhriodol.
- Gwesteio cyfres o weithdai ymgysylltu gyda staff er mwyn archwilio ffydd, hil ac anabledd.

Mae ein tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant wedi nodi camau ychwanegol sydd wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Pobl LAA er mwyn parhau â'n gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant.

## Cyflogi pobl anabl

Yn ystod 2018-19, gweithiodd LAA gyda chydweithwyr ar draws MoJ er mwyn cyflwyno cais llwyddiannus am achrediad Arweinwyr Hyderus am Anabledd. Mae LAA wedi mabwysiadu polisïau MoJ mewn perthynas â chyflogaeth, hyfforddiant, datblygu gyrfa a hyrwyddo pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Anabledd LAA a'r Llawlyfr Gallu. Mae gan ein pobl fynediad at raglenni hyfforddi a datblygu gyrfa oedd Gweithgaredd Cadarnhaol y Gwasanaeth Sifil a dargedir i gefnogi pobl ag anabledd. Hefyd gall staff LAA ofyn am gyngor gan Dîm Addasu Gweithle y Gwasanaeth Sifil.

## Data absenoldeb salwch salwch (nid yw'n ddarostyngedig i archwiliad)




Mae'r Asiantaeth wedi gweld cynnydd yn y Dyddiau Gwaith Cyfartalog a Gollir, ac er bod ei berfformiad yn y maes yma yn dal yn gryf, mae'r Pwyllgor Pobl yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r broses absenoldeb salwch ymysg rheolwyr er mwyn sicrhau y'i dilynir yn briodol; dysgu o arferion da a'u rhannu ar draws yr Asiantaeth; a pharhau i gynnal gweithgareddau i gefnogi llesiant staff ar draws y busnes.

Tabl J : Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil ac eraill – pecynnau gadael

| | 2018-19 | | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr Ymadawiadau eraill | Cyfanswm pecynnaugadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm pecynnaugadael |
| Band cost pecyn gadael | | | | | | |
| < £10,000 | – | – | – | – | – | – |
| £10,000-£25,000 | – | – | – | – | – | – |
| £25,000-£50,000 | – | – | – | – | 1 | 1 |
| £50,000-£100,000 | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm pecynnau gadael yn ôl math | – | 1 | 1 | – | 1 | 1 |
| Cyfanswm cost adnoddau (£000) | – | – | – | – | 37 | 37 |

Mae'r diswyddo a ddatgelir yn y tabl uchod yn gysylltiedig ag 1 (2017-18: un) aelod staff cyfwerth ag amser llawn, a thalwyd hynny gan MoJ ac felly ni ysgwyddwyd unrhyw gostau gan LAA yn uniongyrchol yn 2018-19.

Cytunwyd ar gostau dileu swyddi ac ymadawiadau eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, sydd yn gynllun statudol o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.Cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn ystod y flwyddyn ymadael. Pan fo LAA wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir am y costau ychwanegol gan LAA ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Y cynllun pensiwn sydd yn talu am gostau ymddeoliadau seiliedig ar waeledd, ac nid yw hynny wedi ei gynnwys yn y tabl.

## Costau ymgynghori

Roedd y gwariant ar ymgynghori yn 2018-19 yn £22k (2017-18: £24k)

## Cysylltiadau oddi ar y gyflogres

Yn ystod y flwyddyn mae LAA wedi adolygu trefniadau treth ei holl benodiadau oddi ar y gyflogres. Bu'n ofynnol i'r holl gontractwyr sydd o fewn cwmpas yr ymarfer yma i ddarparu

tystiolaeth o gydymffurfio â threthiant. Ni fu unrhyw achoso o ddiffyg cydymffurfio â threthiant oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019. Mae mwy o fanylion ar gael am gysylltiadau oddi ar y gyflogres yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol MoJ.

# Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

Mae'r adran hon wedi bod yn destun archwiliad.

Losses and special payments

| | 2018-19 | | 2017-18 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm | £000 | Swm | £000 |
| Diddymiadau | 1,513 | 1,649 | 1,646 | 2,220 |
| Taliadau arbennig | – | – | – | – |
| Cyfanswm gwerth colledion | 1,513 | 1,649 | 1,646 | 2,220 |

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, datgelir colledion dros £300k ar wahân.

Ni ddiddymwyd unrhyw falansau cyflenwyr dros £300k (2017-18: ni ddiddymwyd unrhyw falansau cyflenwyr). Nid oes dim rhwymedigaethau wrth gefn na ffioedd a godwyd yn 2018-19 (0 yn 2017-18).

Colledion posibl
Mae tîm Atal Twyll LAA yn cefnogi ymchwiliadau cyfredol i achosion o dwyll a amheuir gan gwmnïau darparwyr ynghylch materion a gyfeiriwyd at yr heddlu ac a adroddwyd amdanynt i Weithredu ar Dwyll a Swyddfa'r Cabinet.

Mae LAA yn cymryd camau i orfodi ac adennill symiau a dalwyd mewn perthynas â'r hawliadau amhriodol posibl hynny. Os bydd ymchwiliad yn casglu bod symiau wedi eu caffael yn amhriodol, gall unrhyw swm na ellir ei adennill arwain at golled mewn Cyfrifon yn y dyfodol.

Taliadau arbennig
Ni fu unrhyw daliadau arbennig yn ystod 2018-19 (2017-18: dim taliadau arbennig).

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
27 Mehefin 2019

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau o Wariant Net Cyfun, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian. Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi ei harchwilio.

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar 31 Mawrth 2019, ac o gostau gweithredu net yr Asiantaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; a

- Mae'r Cyfrifon wedi'u darparu yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mewn cysylltiad â phob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail safbwyntiau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'.
Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn fanylach yn adran Cyfrifoldebau'r archwiliwr wrth archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fy staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn unol â'r gofynion moesegol sydd yn berthnasol i fy archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei derbyn yn ddigonol a phriodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i mi ddod i gasgliad ar briodoldeb defnydd rheolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd arwyddocaol yn bodoli mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau allai achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os byddaf yn casglu bod ansicrwydd arwyddocaol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi ddwyn sylw at hynny yn fy adroddiad archwilio i'r datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu, os bydd y cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â bodoli fel busnes gweithredol. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd arno mewn perthynas â hynny.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am  yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn golygu caffael digon o dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau sylweddol yn y datganiadau, p'un a bod hynny drwy dwyll neu gamgymeriadau. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA (DU) bob amser yn canfod camddatganiad arwyddocaol pan maent yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn arwyddocaol os, yn unigol neu wedi'u hagregu, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hynny.

Fel rhan o archwiliad yn unol â ISA (DU) rwyf yn rhoi dyfarniad proffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- Arenwi ac asesu risgiau camddatganiadau arwyddocaol mewn datganiadau ariannol, p'un a bod hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn caffael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol er mwyn darparu sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiadau arwyddocaol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag o ganlyniad i gamgymeriad, oherwydd y gallai twyll fod yn gysylltiedig â chydgynllwynio, ffugio, hepgorion bwriadol, cam gynrychiolaethau, neu osgoi rheolaeth fewnol;

- Caffael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol;

- Gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaethpwyd gan y rheolwyr;

- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, yn cynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau tanategol mewn modd sy'n darparu cynrychiolaeth deg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, cwmpas cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gaffael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Gwybodaeth ychwanegol
Y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai sydd wedi ei harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o sicrwydd ar hynny. Mewn cysylltiad â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn arwyddocaol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod hynny yn gamddatganiad arwyddocaol. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, yn casglu bod yna gamddatganiad arwyddocaol yn y wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd arno mewn perthynas â hynny.

Barn ar faterion eraill
Yn fy marn i:

- Mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd oedd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarfyddiadau Trysorlys EM a roddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r endid a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau arwyddocaol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; a

- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac maent wedi eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- Nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu na dderbyniwyd digon o ymatebion ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fu i fy staff ymweld â hwy; neu

- Nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ymatebion; neu

- Nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

- Nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM..

Adroddiad
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w rhoi ar y datganiadau ariannol yma..

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwiliwr
Cyffredinol 1 Gorffennaf 2019

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 157-197
Buckingham Palace Road
Victoria London SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol



# Datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018-19<br>£000 | AILDDATGAN<br>2017-18<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm rhent | | (297) | (653) |
| Llog ar daliadau statudol | | (7,715) | (5,807) |
| Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 6 | (48,931) | (49,196) |
| Cyfanswm incwm gweithredol | | (56,943) | (55,656) |
| Costau staff | 3 | 45,376 | 47,522 |
| Gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 4 | 1,740,034 | 1,708,802 |
| Costau dibrisio ac amhariad | 8 & 9 | 10,527 | 8,757 |
| Gwariant gweithredol arall | 5 | 36,341 | 31,258 |
| Cyfanswm cost gweithredol | | 1,832,278 | 1,796,339 |
| Costau gweithredol net am y flwyddyn | | 1,775,335 | 1,740,683 |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | |
| Eitemau na chaiff eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net | | | |
| Colled / elw net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | (354) | (646) |
| Colled / elw net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (5) | (42) |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | | 1,774,976 | 1,739,995 |

Mae holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
Datganiad Sefyllfa Ariannol
Balans ar 31 Mawrth 2019

| | Note | 31 MAWRTH 2019 £000 | AILLDDATGAN 31 MAWRTH 2018 £000 | AILDDATGAN 1 EBRILL 2017 £000 |
|---|---|---|---|---|
| ASEDAU ANGHYFREDOL | | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | 52,043 | 55,931 | 56,161 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 9 | 1,319 | 2,798 | 4,247 |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 53,362 | 58,729 | 60,408 |
| ASEDAU CYFREDOL | | | | |
| Derbyniadau masnach ac eraill | 11 | 164,467 | 149,510 | 135,918 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | 45,201 | 26,781 | 10,894 |
| Cyfanswm yr asedau cyfredol | | 209,668 | 176,291 | 146,812 |
| Cyfanswm asedau | | 263,030 | 235,020 | 207,220 |
| RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL | | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 13 | (188,650) | (188,855) | (196,569) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (602,777) | (574,335) | (536,574) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | | (791,427) | (763,190) | (733,143) |
| Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | (528,397) | (528,170) | (525,923) |
| RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL | | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 13 | (521) | (448) | (571) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (598) | (671) | (2,063) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | | (1,119) | (1,119) | (2,634) |
| Asedau llai rhwymedigaethau | | (529,516) | (529,289) | (528,557) |
| ECWITI TRETHDALWYR | | | | |
| Y gronfa ailbrisio | | 3,061 | 3,245 | 3,165 |
| Y gronfa gyffredinol | | (532,577) | (532,534) | (531,722) |
| Cyfanswm ecwiti | | (529,516) | (529,289) | (528,557) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
27 Mehefin 2019

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Datganiad Llif Arian

## ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018-19 £000 | AILDDATGAN 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL | | | |
| Cost gweithredu net | | (1,775,335) | (1,740,683) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a di-arian parod | | 25,317 | 17,994 |
| Balansaau rhyngadrannol wedi eu setlo o'r cronfeydd cyffredinol | | (3,486) | 2,618 |
| Colled/(elw) oherwydd amhariad, ailbrisio a cholledion wrth werthu | 5 | – | – |
| Cynnydd mewn derbyniadau masnachol ac eraill | | (14,957) | (13,592) |
| Lleihad mewn taladwyon masnachol ac eraill | | (132) | (7,837) |
| Llai symudiadau mewn taladwyon am eitemau na basiodd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 125 | 915 |
| Symudiad mewn darpariaethau | | 28,369 | 36,369 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | | (1,740,099) | (1,704,216) |
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | (4,464) | (7,171) |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | (379) | – |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | (4,843) | (7,171) |
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | 1,758,519 | 1,720,884 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | 4,843 | 6,390 |
| Llif arian i mewn o weithgareddau cyllido | | 1,763,362 | 1,727,274 |
| Lleihad net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn | | 18,420 | 15,887 |
| Lleihad net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 26,781 | 10,894 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 12 | 45,201 | 26,781 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019
Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar wahanol gronfeydd yr Asiantaeth.

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd asedau na chawsant eu cydnabod fel incwm neu wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn dangos cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau'r Asiantaeth, i'r graddau fel na chaiff y cyfanswm ei gynrychioli gan gronfeydd eraill.

| | Nodiadau | CRONFA AILBRISIO £000 | CRONFA GYFFREDINOLE £000 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Balance at 1 April 2017 | | 3,165 | (531,722) | (528,557) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER 2016-17 | | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | – | 1,720,884 | 1,720,884 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | – | 6,390 | 6,390 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,740,683) | (1,740,683) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Elw net wrth ailbrision | | 688 | – | 688 |
| ADDASIADAU DI-ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiadau rhyngadrannol | | – | 2,618 | 2,618 |
| Symiau tybiannol yr ail godwyd amdanynt gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 5 | – | 9,181 | 9,181 |
| Ffioedd archwilio allanol tybiannol | 5 | – | 190 | 190 |
| SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (608) | 608 | – |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | | 3,245 | (532,534) | (529,289) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER 2017-18 | | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | – | 1,758,519 | 1,758,519 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | – | 4,843 | 4,843 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,775,335) | (1,775,335) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Elw net wrth ailbrisio | | 359 | – | 359 |
| ADDASIADAU DI-ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiadau rhyngadrannol | | – | (3,528) | (3,528) |
| Symiau tybiannol yr ail godwyd amdanynt gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 5 | – | 14,720 | 14,720 |
| Ffioedd archwilio allanol tybiannol | 5 | – | 195 | 195 |
| SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (543) | 543 | – |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | | 3,061 | (532,577) | (529,516) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 74 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# Nodiadau ar y Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

## Nodyn 1 – Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2018 - 2019, o dan gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu'r FReM yn cymhwyso'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel yr addasir neu y dehonglir hwynt ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig yr Asiantaeth (ACC) er mwyn gallu rhoi darlun clir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr ACC isod. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

a) Sail y paratoi

Cyflwynir y datganiadau mewn Sterling wedi eu talgrynnu i'r fil agosaf (£000) oni nodir yn wahanol. Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gyfrif am ailbrisio asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

Barn arwyddocaol a ffynonellau amcangyfrifo

Mae paratoi datganiadau ariannol yn gofyn defnyddio barn, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar nifer neu faint yr asedau a'r rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiadau ariannol ac ar faint yr incwm a'r gwariant a adroddir yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar ddata gan yr ACC, ar brofiad hanesyddol ac ar amrywiol ffactorau eraill. Credir eu bod yn darparu sail resymegol ar gyfer gallu rhoi amcangyfrif o werthoedd yr asedau a'r rhwymedigaethau nad ydynt ar gael yn barod o ffynonellau eraill.

Y prif bethau y llunnir amcangyfrifon ar eu cyfer gan reolwyr yw asedau anniriaethol (nodyn 8), derbyniadau masnachol ac eraill (nodyn 11) a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (nodyn 15).

Busnes hyfyw

Mae'r ACC yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 i gomisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a'r sector nid er elw).

Mae disgwyl i'r MoJ gyllido gweithgareddau'r ACC yn y dyfodol gydag arian y pleidleisir arno'n flynyddol o dan y Ddeddf Dyraniadau berthnasol. Barn yr ACC yw bod y cysyniad o fusnes hyfyw'n berthnasol cyn belled ag y bod Deddf LAPSO 2012 yn parhau i fodoli.

b) Newidiadau mewn datgeliadau a pholisïau cyfrifyddu

Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu
Nid oed unrhyw newidiadau wedi bod i bolisïau cyfrifyddu am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig
Mae safonau newydd wedi eu mabwysiadu yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 a chant eu trafod isod:

Roedd IFRS 9: Offerynnau Ariannol (disodli IAS 39) yn anelu at symleiddio cyfrifyddu offerynnau ariannol a gwneud i ymarfer a chyfrifyddu gyd-fynd yn agosach â sut y caiff offerynnau eu defnyddio yn y busnes. Aseswyd IFRS 9 ac nid yw wedi cael effaith o bwys ar y Cyfrifon. Mynna'r newid yn y safon fod asedau ariannol yr ACC, gaiff eu cynnal i gasglu llif arian cytundebol yn unig, yn cael eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio. Yn flaenorol ystyriwyd yr asedau hyn fel benthyciadau a derbyniadau, wedi eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio. Ni fu unrhyw effaith ariannol ar asedau ariannol yr ACC o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 9.

IFRS 15: Roedd 'Refeniw o gytundebau â chwsmeriaid' yn anelu at newid nifer sylweddol o ganllawiau presennol trwy gyflwyno safon yn seiliedig ar egwyddorion. Cynhwysir effaith mabwysiadau'r safon hon yn nodyn 22.

Safonau, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn effeithiol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar1 Ebrill 2018 ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar.
Bydd IFRS 16 yn newid y ffordd y mae'r ACC yn cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu ei brydlesau. Mae'r safon yn darparu model cyfrifyddu prydlesi sengl yn gofyn bod prydleseion yn cydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai fod cyfnod y brydles yn 12 mis neu lai, neu fod yr ased o werth isel. Ni wyddys beth fydd effaith lawn IFRS 16 ar yr ACC hyd nes caiff ei fabwysiadu i'w ddefnyddio yn y sector cyhoeddus gan FreM, a hyd nes bod yr ansicrwydd parthed y fethodoleg gwerthuso a sgôp llawn y safon wedi eu datrys. Yn weithredol o 2020-21.

c) Incwm

Mae incwm yr ACC yn cynnwys cyfraniadau gan gwsmeriaid a ariannir, costau a adenillir gan gwsmeriaid a ariannir gan eraill, gan gynnwys taliadau statudol, arian iawndal ac incwm gweinyddu. Caiff incwm ei gydnabod ar y pwynt pan fo'n debygol y bydd y budd economaidd sy'n gysylltiedig ag ariannu achos yn llifo i'r ACC.

Costau wedi eu hadennill o iawndal a thaliadau statudol

Pan fydd costau a achoswyd wrth ariannu achos yn cael eu hadennill gan gwsmeriaid a ariannir neu eraill, cyfrifir am y symiau hyn fel incwm pan gânt eu hasesu fel bod yn ddyledus i'r ACC.
Gellir adennill y symiau'n dilyn dyfarnu costau ac iawndal, lle bo'n berthnasol.

Prawf Modd Llys y Goron
Ar gyfer cynllun Prawf Modd Llys y Goron (CCMT), caiff incwm ei gydnabod pan fo'r dyfarniad yn hysbys a'r cyfrifiad terfynol o gyfraniad cyfanswm y ceisydd wedi ei asesu.

d) Gwariant

Mae gwariant yn cynnwys symiau taladwy, gan gynnwys amcan-werth gwaith a gwblhawyd gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol na filiwyd ar ei gyfer eto, am wasanaethau i gwsmeriaid a ariannir, ad-daliad cyfraniadau i gwsmeriaid a ariannir, costau a ddyfernir i bartïon eraill a chostau eraill yn gysylltiedig â darparu cyngor a chymorth cyfreithiol. Mae costau eraill yn cynnwys cost staff (gan gynnwys dyrannu costau pensiwn) a chostau gweinyddol rhedeg yr ACC.

e) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau gyda banciau masnachol, yn cynnwys rhai a weinyddir drwy Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS), sydd â chyfnod aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

f) Darpariaethau

Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr ACC rwymedigaeth gyfreithiol neu ddealledig, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, a lle mae'n debyg y bydd angen i fudd economaidd lifo allan i setlo'r rhwymedigaeth a lle gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Mae darpariaeth yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae'r effaith yn un o bwys, caiff yr amcan-swm llif arian ei ddisgowntio. Mae effaith y disgownt yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariannir
Mae'r ACC yn cydnabod ei rwymedigaeth i dalu am waith a gwblhawyd ar y dyddiad adrodd ond na filiwyd amdano eto. Cynhyrchir amcangyfrifon ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol, gan gynnwys Cynrychiolaeth Sifil, Help Cyfreithiol Sifil, Troseddol Uwch a Throseddol Is yn defnyddio'r data sydd ar gael a thechnegau modelu ystadegol. Disgrifir y rhagdybiaethau a ddefnyddir gan reolwyr i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn o dan Adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Darpariaeth ar gyfer symiau sy'n weddill mewn perthynas ag achosion a arianwyd yn breifat (Cronfa Ganolog)
O dan delerau'r Ddeddf Erlyn Troseddau 1985, mewn amgylchiadau cyfyngedig, gall diffynyddion a ryddfarnwyd ac sydd wedi gwneud cais, a ystyriwyd yn anghymwys, am gymorth cyfreithiol, sicrhau gorchymyn gan Lys y Goron i adennill eu costau. Mae'r ACC yn amcangyfrif gwerth y costau sydd heb eu bilio er mwyn cyrraedd y swm a nodir fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol. Mae'r swm yn amcangyfrif o'r gwariant sy'n angenrheidiol i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Costau dadfeilio eiddo prydles
Darperir ar gyfer amcan-gostau dadfeilio yng nghyswllt adeiladau prydles. Mae'r ddarpariaeth wedi ei hamcangyfrif ar sail cyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y brydles berthnasol.

Costau cyfreithiol
Gwneir darpariaeth ar gyfer costau pan fo'n debygol y bydd angen i adnoddau lifo allan i setlo rhwymedigaeth gyfredol.

g) Prydlesi gweithredol

Codir taliadau rhent ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y brydles wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r ACC yn cyfrif am gymhellion prydles (cyfnodau di-rent) dros dymor y brydles.

h) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol
Mae asedau ariannol yr ACC yn cynnwys arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, a derbyniadau masnachol ac eraill. Asedau ariannol di-ddeilliad yw derbyniadau Masnachol ac eraill, gyda thaliadau sefydlog neu benodol ac ni ddyfynnir hwynt mewn unrhyw farchnad weithredol. Nid oes gan yr ACC fwriad i fasnachu'r derbyniadau hyn, sy'n cynnwys symiau dyledus gan gyflenwyr cymorth cyfreithiol a chwsmeriaid a ariannir.

Cydnabod cychwynnol a mesur
Mae derbyniadau'n cael eu cydnabod yn gychwynnol ar sail eu swm crynswth, wedi'i addasu i ystyried gwerth amser yr arian dros gyfnod eu casglu, ar sail cyfraddau disgownt a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Ar ôl eu cydnabod yn gychwynnol, mae'r asedau hyn yn cael eu cario ar sail cost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio cyfradd llog effeithiol, llai unrhyw amhariad ac addasiad gwerth teg pellach. Mae unrhyw dderbyniad llog neu golled oherwydd amhariad yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Datgelir y derbyniadau i gyd fel rhai dyledus ymhen blwyddyn er, yn achos dyledion taliadau statudol, gellir gohirio gorfodi'r ddyled. Gall ad-dalu dyledion gohiriedig gymryd mwy na blwyddyn i'w hadennill.

Datgydnabod
Loans and receivables are derecognised when the rights to receive cash flows from the assets have expired.

Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabod cychwynnol a mesur
Mae rhwymedigaethau ariannol yr ACC yn cynnwys taladwyon masnachol ac eraill. Nid yw'r rhain yn cael eu hailbrisio ar ôl eu cydnabod yn gychwynnol oherwydd offerynnau syml gyda chyfnodau aeddfedu tymor byr ydynt. Nid oes gan yr ACC bwerau i fenthyg arian.

Datgydnabod
Mae rhwymedigaeth ariannol yn cael ei datgydnabod pan gaiff y rhwymedigaeth o dan y rhwymedigaeth ei gyflawni, ei ganslo neu mae'n dod i ben.

Gwerth teg offerynnau ariannol
Mae gwerth teg offerynnau ariannol yr ACC yn cael ei bennu drwy ddefnyddio technegau prisio priodol. Gall y technegau hyn gynnwys dadansoddi llif arian wedi'i ddisgowntio, neu fodelau prisio eraill.

Rhoddir dadansoddiad o werthoedd teg offerynnau ariannol, a manylion pellach am eu mesur, o dan werthoedd teg (nodyn 14) yn y datganiadau ariannol hyn.

Gwrthbwyso offerynnau ariannol
Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei adrodd yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol dim ond os oes hawl gyfreithiol orfodadwy i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bwriad i setlo ar sail net.

i) Amhariad ar asedau ariannol

Mae asesiad o a oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad yn cael ei wneud gyda phob ased ariannol neu grwpiau o asedau ariannol ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Gall yr asesiad hwn fod o asedau unigol (amhariad unigol) neu o bortffolio o asedau (amhariad cyfunol).

Gwneir asesiad o amhariad cyfunol pan fydd yr asedau ariannol gyda nodweddion risg tebyg. Gyda'r asedau hyn, defnyddir profiad blaenorol yr ACC o golledion ym mhob portffolio i amcangyfrif maint yr amhariad ar y dosbarth asedau hwnnw. Lle gwneir yr amcangyfrif hwn, gwneir darpariaethau amhariad i leihau gwerthoedd llyfr yr asedau ariannol i adlewyrchu hynny. Rhoddir mwy o fanylion am y model prisio a ddefnyddir i wneud yr amcangyfrif hwn, a'r union amhariadau yn erbyn derbyniadau'r ACC, o dan Adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn

Ar gyfer amhariad unigol, y brif golled yw colli un neu fwy o daliadau, er y gellir hefyd ystyried colledion eraill, gan gynnwys trefniadau yn eu lle i dalu llai na'r taliadau cytundebol, twyll a methdaliad neu arwyddion eraill o drafferthion ariannol

Lle bo tystiolaeth wrthrychol bod colled amhariad wedi digwydd ar fenthyciadau a derbyniadau, gwneir darpariaethau amhariad i leihau gwerthoedd llyfr yr asedau ariannol i werth teg y llif arian tybiedig yn y dyfodol.

j) Cyfrifo Treth ar Werth

Mae Treth ar Werth (TAW) na ellir ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol, neu lle bo'n briodol, yn cael ei chyfalafu gydag ychwanegiadau i asedau anghyfredol. Dangosir incwm a gwariant, fel arall, net o DAW.

k) Asedau trydydd parti

Cyfrifon adnau ar gyfer cleientiaid a ariannir
Mae dyfarniadau iawndal i gwsmeriaid a ariannir yn cael eu talu i'r ACC i ddechrau. Mae'r ACC yn adneuo'r cronfeydd hyn tan fydd costau terfynol yr achos wedi eu cyfrifo. Bydd unrhyw iawndal a chyfraniadau sy'n weddill yna'n cael eu talu i'r cleient a ariannir. Cyfrifir am y cronfeydd hyn fel asedau sy'n cael eu dal ar ran trydydd parti, ac felly, nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae dyfarniadau iawndal sy'n cael eu talu i'r ACC yn denu llog ar ôl cyfnod o gymhwyso.

Prawf Modd Llys y Goron (CCMT)
Gallai cyfraniadau fod yn daladwy i'r ACC, tuag at gost dwyn achos yn Llys y Goron, mewn achosion a fu'n destun prawf modd. Mae'r ACC yn adneuo'r cronfeydd hyn ac yn cyfrifo amdanynt fel arian sy'n cael ei ddal ar ran trydydd parti ac, felly, nid yw'n cael ei gydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Unwaith y penderfynir ar y dyfarniad a'r costau terfynol, os ceir y ceisydd yn euog, bydd gwerth y cronfeydd hyd at y trothwy costau'n ddyledus i'r ACC. Os ceir y ceisydd yn ddieuog, mae'r cyfraniadau a dalwyd i'r ACC yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog wedi'i gyfrifo ar 2% y flwyddyn o'r dyddiad talu.

Adroddir ar symudiad mewn cronfeydd trydydd parti o dan asedau trydydd parti (nodyn 20) yn y datganiadau ariannol hyn.

l) Buddion gweithwyr

Mae'r ACC yn cronni ar gyfer costau disgwyliedig hawl ei gweithwyr i wyliau blynyddol yn unol â'r Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 'Buddion Gweithwyr'. Mae'r ACC yn amcangyfrif y gost gronnus hon drwy gyfrifo gwerth cyfartalog y gwyliau sydd heb eu cymryd ar draws pob band cyflog a defnyddio'r gwerth hwn i roi cyfanswm.

m) Y Gronfa Gyffredinol

Cyllid Cyflenwi
Mae cyllid cyflenwi sy'n cael ei dderbyn gan yr MoJ yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr pan ddaw'r cyllid i law. O bryd i'w gilydd drwy'r flwyddyn, mae'r ACC yn derbyn cyllid cyflenwi gan yr MoJ, a gyfrifir ar sail arian parod.

Addasiadau rhyngadrannol
Mae addasiadau rhyngadrannol yn ymwneud â setliad rhwng yr ACC a'r MoJ yng nghyswllt i) trosglwyddiadau eiddo, peiriannau a chyfarpar, a ii) trafodion prynu a gwerthu rhwng cwmnïau drwy'r gronfa gyffredinol.

n) Asesiadau a rhwymedigaethau wrth gefn

Datgelir rhwymedigaeth wrth gefn pan fydd y tebygolrwydd o daliad yn llai na thebygol, ond yn fwy na diobaith. Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir yn unol ag IAS 37 'Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn, ac Asedau Wrth Gefn', mae'r ACC yn datgelu, i bwrpas atebolrwydd ac adrodd i'r Senedd, rhai rhwymedigaethau wrth gefn statudol ac anstatudol lle mae bron yn ddiobaith y bydd budd economaidd yn trosglwyddo, fel sy'n ofynnol o dan 'Rheoli Arian Cyhoeddus' ('Managing Public Money').

Ased wrth gefn yw un lle mae ased tebygol yn codi o ddigwyddiad blaenorol a lle bydd ei fodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr ACC, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Datgelir ased wrth gefn lle mae budd economaidd yn debygol o lifo i mewn.

o) Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', mae digwyddiadau'n cael eu hystyried hyd at y dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi, a ddehonglir fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

p) Asedau ar ganol eu creu

Mae asedau ar ganol eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â chael ei chyfrif fel ased ar ganol ei chreu pan fydd yn barod i'w defnyddio. Mae ei gwerth llyfr yna'n cael ei ddileu o'r asedau ar ganol eu creu a'i drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae'r dibrisiad neu'r amorteiddiad yna'n cael ei godi ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio, fel costau contractwr allanol a chostau staff perthnasol.

q) Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd cyfrifiadurol a grëwyd yn fewnol (gan gynnwys asedau ar ganol eu creu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd penodol ac unigryw, fel costau contractwr allanol a chostau staff perthnasol, yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod.

Mae'r ACC yn gweithredu trothwy cyfalafu o £10,000ar gyfer asedau anniriaethol.

Caiff asedau anniriaethol, ac eithrio asedau ar ganol eu creu, eu hail-ddatgan ar sail gwerth teg eu defnydd presennol bob blwyddyn drwy fynegeio tan ddiwedd y flwyddyn yn defnyddio Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr (PPI) ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

r) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar sy'n costio mwy na'r trothwy cyfalafu o £10,000 yn cael eu trin fel asedau cyfalaf. Lle mae eitem yn costio llai na'r trothwy cyfalafu ond mae'n rhan o ased neu grŵp o asedau, gyda chyfanswm gwerth mwy na'r lefel gyfalafu, mae'r eitem yn cael ei thrin fel ased gyfalaf.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu hail-ddatgan ar sail eu gwerth teg bob blwyddyn drwy fynegeio hyd at ddiwedd y flwyddyn yn defnyddio PPI ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

s) Dibrisio ac amorteiddio

Ac eithrio asedau ar ganol eu creu, caiff pob ased anghyfredol ei dibrisio neu ei hamorteiddio ar sail llinell syth er mwyn dileu cost yr ased dros gyfnod tybiedig ei hoes ddefnyddiol fel hyn:

| | |
|---|---|
| Gosodion a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Dodrefn a chyfarpar | 3 i 5 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 5 mlynedd |
| Meddalwedd cyfrifiadurol | 3 i 15 mlynedd |

t) Amhariad ar asedau anariannol

Ar bob dyddiad adrodd mae'r ACC yn adolygu symiau llyfr (neu symiau cario) ei eiddo, peiriannau a chyfarpar, a'i asedau anniriaethol, i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef amhariad. Os awgrymir bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth teg yr ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad.

Mae amhariadau sy'n adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased, o ganlyniad i ddefnydd clir o fudd economaidd neu botensial gwasanaeth, yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, gydag unrhyw falans ar ôl yn y gronfa ailbrisio'n cael ei ryddhau i'r gronfa gyffredinol.

Pan fydd gwerth llyfr ased yn lleihau (nid o ganlyniad i ostyngiad parhaol), mae'r lleihad yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli ar gyfer yr ased hwnnw. Codir unrhyw leihad sydd dros y balans ailbrisio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae unrhyw wrthdroad o swm amhariad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau y cafodd y swm gwreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw ddibrisio sy'n digwydd wedyn, ei gydnabod yno'n flaenorol. Mae'r swm sy'n weddill yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio.

u) Ailbrisio

Pan fydd gwerth llyfr ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, mae'r cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel ei fod yn gwrthdroi lleihad dibrisio yng ngwerth yr un ased a gafodd ei chydnabod yn flaenorol yno. Mae unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Mae unrhyw ddibrisiad sydd wedi cronni ar ddyddiad yr ailbrisio'n cael ei ddileu yn erbyn gwerth llyfr crynswth yr ased. Mae'r gwerth net yn cael ei ail-ddatgan ar sail gwerth ailbrisio'r ased.

Mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad ar sail gwerth llyfr yr ased a ailbrisiwyd a ailgodwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a dibrisiad ar sail cost wreiddiol yr ased, yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol bob blwyddyn.

v) Notional recharges

Symiau tybiannol yr ailgodir amdanynt gan yr MoJ
Y symiau tybiannol yr ailgodir amdanynt gan yr MoJ yw defnydd yr ACC o wasanaethau corfforaethol.

Ffioedd archwilio tybiannol
Mae cost yr archwiliad a gyflawnir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chydnabod fel tâl di-arian parod.

w) w) Llog a dderbynnir ar daliadau statudol

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 a Deddf LASPO 2012, lle mae cleientiaid a ariannir wedi adennill neu ddiogelu eiddo yn lle derbyn iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi tâl yn erbyn yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth

Cyfreithiol Sifil (Taliadau Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion lle mae llog o 8% y flwyddyn i'w dalu ar y prif falans dyledus annum.

x) Pensiynau

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
Cynllun buddion diffiniedig nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), lle nad yw'r ACC yn gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Yn unol â FReM, mae'r ACC yn cyfrif am y rhain fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r ACC yn cydnabod cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y flwyddyn yr achosir hwynt, gyda'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddealledig wedi'i chyfyngu i'r swm y mae'n cytuno i'w gyfrannu i'r gronfa.

y) Adrodd ar segmentau

Caiff segmentau gweithredol eu penderfynu'n unol ag IFRS 8 'Segmentau Gweithredol' ar sail pa wybodaeth a gyflwynir i Fwrdd yr ACC, er mwyn gwneud penderfyniadau.

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# Nodiadau ar y datganiadau ariannol (parhad) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

## Nodyn 2 – Dadansoddiad o segmentau

Mae'r ACC yn rhannu'r costau gweithredol net yn dri segment: Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol, y Gronfa Weinyddol a'r Gronfa Ganolog, i bwrpas gwneud penderfyniadau gweithredol ac adrodd i Fwrdd yr ACC.

Mae'r segment Gweinyddol yn adlewyrchu costau rhedeg yr ACC.

Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol wedi'i his-rannu ymhellach yn Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, a Troseddol Uwch.

- Mae Help Cyfreithiol yn golygu rhoi cyngor a chymorth gyda mater cyfreithiol.
- •Mae Cynrychiolaeth Sifil yn golygu cynrychiolaeth gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr mewn achosion sifil a allai fynd i'r llys.
- • Mae Troseddol Is yn golygu cynrychiolaeth gyfreithiol i rai a gyhuddir o droseddau mewn Llysoedd Ynadon a gorsafoedd yr heddlu.
- • Mae Troseddol Uwch yn golygu'r un gynrychiolaeth yn Llys y Goron, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.

Cronfeydd Canolog yw gwariant ar orchymyn a wnaed i ddiffynnydd wedi'i ryddfarnu ac a dalodd yn breifat am ei gynrychiolaeth gyfreithiol.

Dengys y tabl canlynol y costau gweithredol net yn ôl segment, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019:

| | 2018-19 | AILDDATGAN |
|---|---|---|
| | 2017-18 | £000 |
| CRONFA | | |
| Help cyfreithiol | 97,882 | 99,088 |
| Cynrychiolaeth Sifil | 623,374 | 579,971 |
| Troseddol Is | 263,538 | 270,887 |
| Troseddol Uwch | 646,985 | 655,462 |
| CRONFEYDD CANOLOG | 56,854 | 53,889 |
| GWEINYDDOL | 86,702 | 81,386 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | 1,775,335 | 1,740,683 |

Mae manylion yr ailddatganiad yn nodyn 22.

## Nodyn 3 – Costau Staff

| | 2018-19 | 2018-19 | 2018-19 | 2017-18 | 2017-18 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall | Total | Staff a gyflogir yn barhaol wedi eu hailddatgan | Staff eraill wedi eu hailddatgan | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau misol ac wythnosol | Arall | | 35,145 | 36,209 | 830 | 37,039 |
| Costau nawdd cymdeithasol | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol wedi eu hailddatgan | 3,502 | 3,690 | – | 3,690 |
| Costau pensiwn eraill | | | 6,676 | 6,780 | – | 6,780 |
| | Staff eraill | 485 | 45,323 | 46,679 | 830 | 47,509 |
| Llai costau wedi eu hadennill am secondio staff allan | wedieuhailddatgan | | 23 | (53) | – | (53) |
| Dileu swyddi | Cyfanswm | – | – | 37 | – | 37 |
| | 44,861 | 485 | 45,346 | 46,663 | 830 | 47,493 |
| Aelodau Bwrdd Anweithredol (ffioedd a buddion) | 30 | – | 30 | 29 | – | 29 |
| | 30 | – | 30 | 29 | – | 29 |
| Cyfanswm | 44,891 | 485 | 45,376 | 46,692 | 830 | 47,522 |

*Mae'r costau dileu swyddi yn y tabl uchod yn berthnasol i gyfwerth ag 1 (2017-18: un) staff amser llawn, cafodd hwn ei dalu gan yr MoJ ac felly ni fu costau uniongyrchol i'r ACC

## Nodyn 4 – Gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2018-19 | AILDDATGAN 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr, bargyfreithwyr a alldaliadau (yn ystod y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 650,981 | 600,043 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | (7,027) | (498) |
| Ad-dalu cyfraniadau | 599 | 567 |
| Costau partïon llwyddiannus heb dderbyn cymorth cyfreithiol | 670 | 667 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | 2,485 | (3,826) |
| Disgowntio dyledion | (1,977) | 548 |
| | 645,731 | 597,501 |
| HELP CYFREITHIOL SIFIL | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr, bargyfreithwyr a alldaliadau (yn ystod y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 93,589 | 92,570 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | (694) | 758 |
| Gwasanaethau uniongyrchol | 4,991 | 5,244 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | (266) | 126 |
| Disgowntio dyledion | (124) | 30 |
| | 97,496 | 98,728 |
| TROSEDDOL IS | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr, bargyfreithwyr a alldaliadau (yn ystod y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 234,556 | 264,813 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 23,539 | 824 |
| Gwasanaethau uniongyrchol a gwasanaeth Amddiffynnydd y Cyhoedd | 3,897 | 3,718 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | (229) | (152) |
| Disgowntio dyledion | (55) | (17) |
| | 261,708 | 269,186 |
| TROSEDDOL UWCH | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr, bargyfreithwyr ac alldaliadau (yn ystod y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 654,606 | 642,723 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 3,630 | 32,110 |
| Gwasanaethau uniongyrchol a gwasanaeth Amddiffynnydd y Cyhoedd | 379 | 291 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | 14,761 | 12,442 |
| Disgowntio dyledion | 4,869 | 1,932 |
| | 678,245 | 689,498 |
| CRONFEYDD CANOLOG | | |
| Gwariant y gronfa ganolog (ddarparwyd yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Gorchmynion costau'r amddiffyniad o Lys y Goron a'r Llys Ynadon | 34,966 | 36,923 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 9,335 | 4,441 |
| Cyfieithwyr ac eraill | 12,553 | 12,525 |
| | 56,854 | 53,889 |
| Cyfanswm | 1,740,034 | 1,708,802 |

Mae manylion yr ailddatganiad yn nodyn 22.

## Nodyn 5 – Gwariant gweithredol arall

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau swyddfeydd a chysylltiedig | 2,557 | 2,147 |
| Costau rhedeg, swyddfeydd, TG a gwasanaethau | 2,469 | 2,535 |
| Costa staff ac aelodau pwyllgor cysylltiedig | 920 | 937 |
| Prydlesi gweithredol | 2,186 | 2,695 |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | 907 | 1,122 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth gyda HMCTS | 199 | 140 |
| Costau gweinyddol eraill | 443 | 358 |
| | 9,681 | 9,934 |
| COSTAU DI-ARIAN PAROD | | |
| Colledion wrth waredu / gwerthu asedau | – | – |
| Symudiad yn y darpariaethau ar gyfer costau cyfreithiol a dadfeilio | 64 | (486) |
| Symiau tybiannol yr ail godir amdanynt gan yr MoJ | 14,720 | 9,181 |
| Symiau arweinyddiaeth weithredol yr ail godir amdanynt gan yr MoJ | 11,806 | 12,573 |
| Ffioedd tybiannol archwilwyr allanol | 195 | 190 |
| Amorteiddio prydlesi gweithredol | (125) | (134) |
| | 26,660 | 21,324 |
| Cyfanswm | 36,341 | 31,258 |

## Nodyn 6 – Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2018-19 | RESTATED 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Cyfraniadau gan gwsmeriaid a ariannir | 3,842 | 4,795 |
| Costau adenilladwy | – | – |
| Costau wedi eu hadennill o iawndal a thaliadau statudol | 11,021 | 7,103 |
| | 14,863 | 11,898 |
| ACHOSION TROSEDDOL | | |
| Costau wedi eu hadennill o Lys y Goron | 33,873 | 37,298 |
| Costau amddiffyn wedi eu hadennill | 195 | – |
| | 34,068 | 37,298 |
| Cyfanswm | 48,931 | 49,196 |

Mae manylion yr ailddatganiad yn nodyn 22.

## Nodyn 7 – Cysoni Nodyn 8 Asedau Anniriaethol a Nodyn 9 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar â'r Datganiad Llif Arian

| | 2018-19<br>£000 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau anniriaethol (nodyn 8) | 4,464 | 6,390 |
| Lleihad/(cynnydd) mewn croniadau cyfalaf | – | 781 |
| Cyfanswm yr asedau anniriaethol a brynwyd am bob Datganiad Llif Arian | 4,464 | 7,171 |
| Ychwanegiadau eiddo, peiriannau a chyfarpar (nodyn 9) | 379 | – |
| Cyfanswm yr eiddo peiriannau a chyfarpar a brynwyd am am bob Datganiad Llif Arian | 379 | – |

## Nodyn 8 – Asedau anniriaethol

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU<br>CYFANSWM | MEDDALWEDD CYFRIFIADUROL<br>£000 | <br>£000 |
|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2018 | 5,647 | 111,264 | 116,911 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (5,146) | 5,502 | 356 |
| Ychwanegiadau | 4,464 | – | 4,464 |
| Wedi eu trosglwyddo i'r MoJ | (42) | – | (42) |
| Wedi eu hailbrisio | – | 840 | 840 |
| Cost ar 31 Mawrth 2019 | 4,923 | 117,606 | 122,529 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 1 Ebrill 2018 | – | 60,980 | 60,980 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | 9,020 | 9,020 |
| Wedi eu trosglwyddo i'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 486 | 486 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 31 Mawrth 2019 | – | 70,486 | 70,486 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 4,923 | 47,120 | 52,043 |

Mae cyfanswm yr ychwanegiadau yn cynnwys croniad cyfalaf o £356k (2018: £356k) ar 31 Mawrth 2019.

Mae balans y gronfa ailbrisio wrth gefn o £3,061k yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £2,370k (2017-18: £2,559k) ar gyfer asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r ACC yn berchen ar yr holl asedau anniriaethol.

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | MEDDALWEDD CYFRIFIADUROL | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2017 | 18,480 | 90,337 | 108,817 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (19,223) | 19,117 | (106) |
| Ychwanegiadau | 6,390 | – | 6,390 |
| Wedi eu gwaredu | – | – | – |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 1,810 | 1,810 |
| Cost ar 31 Mawrth 2018 | 5,647 | 111,264 | 116,911 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 1 Ebrill 2017 | – | 52,656 | 52,656 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | 7,160 | 7,160 |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 1,164 | 1,164 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 31 Mawrth 2018 | – | 60,980 | 60,980 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 5,647 | 50,284 | 55,931 |

## Nodyn 9 – Eiddo peiriannau a chyfarpar

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2018 | 308 | 239 | 19,840 | 20,387 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (7) | – | (349) | (356) |
| Ychwanegiadau | – | 379 | – | 379 |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 146 | 146 |
| Cost ar 31 Mawrth 2019 | 301 | 618 | 19,637 | 20,556 |
| | | | | |
| Wedi dibrisio ar 1 Ebrill 2018 | – | 239 | 17,350 | 17,589 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | – | 1,507 | 1,507 |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 141 | 141 |
| Dibrisio ar 31 Mawrth 2019 | – | 239 | 18,998 | 19,237 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 301 | 379 | 639 | 1,319 |

Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn o £3,061k yn Natganiad Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £692k (2017-18: £686k) ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar ar 31 Mawrth 2019..

Mae'r ACC yn berchen ar yr holl eiddo, peiriannau a chyfarpar.

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2017 | 202 | 239 | 19,457 | 19,898 |
| Wedi eu hailddosbarthu | 106 | – | – | 106 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 383 | 383 |
| Cost ar 31 Mawrth 2018 | 308 | 239 | 19,840 | 20,387 |
| | | | | |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | 239 | 15,412 | 15,651 |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 1,597 | 1,597 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | 341 | 341 |
| Dibrisio ar 31 Mawrth 2018 | – | 239 | 17,350 | 17,589 |
| Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2018 | 308 | – | 2,490 | 2,798 |

## Nodyn 10 – Adnabod a rheoli risg ariannol

Mae proses rheoli risg ariannol yr ACC yn ceisio galluogi adnabod yn gynnar ac yna gwerthuso a rheoli'n effeithiol y prif risgiau sy'n wynebu'r ACC. Sefydlwyd systemau i adolygu ac adlewyrchu newidiadau yn y farchnad cymorth cyfreithiol a gweithgareddau'r ACC.

Risg cyfraddau llog

Nid yw'r ACC yn wynebu risg sylweddol o gyfraddau llog. Ar 31 Mawrth 2019, roedd £75.4m (2017-18: £74.3m) o ddyled taliadau statudol yn ddyledus, y rhan fwyaf ohoni gyda chyfradd llog benodol.

Mae arian a ddaw i'r ACC ar ran cleientiaid a ariannir yn cael ei adneuo nes y daw'r achos i ben. Mae llog yn cael ei dalu i gwsmeriaid a ariannir ar sail y Gyfradd Prynu Rhwng Banciau Llundain, ar gyfradd o 0.5% y flwyddyn, llai'r gyfradd sy'n daladwy ar adneuon iawndal yn y cyfrif cyffredinol.

Mae arian a ddaw i'r ACC yng nghyswllt cyfraniadau CCMT yn cael ei ddal tan fydd dyfarniad a chostau terfynol yr achos wedi eu penderfynu. Os ceir y ceisydd yn ddieuog, mae'r cyfraniadau a dalwyd i'r ACC yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog wedi'i gyfrifo ar 2% y flwyddyn o ddyddiad derbyn y cyfraniad. Mae gweddill y cyfraniadau'n cael ei ddal fel arian parod.

Risg credyd

Risg credyd yw'r risg na fydd partïon contract yr offerynnau ariannol yn perfformio yn unol â thelerau'r contract neu'r offeryn. Mae'r ACC yn wynebu risg credyd wrth ymdrin â chwsmeriaid a ariannir a chyflenwyr ac o rai gweithgareddau cyllido.

Cynrychiolir y risg credyd uniongyrchol a wynebir gan offerynnau ariannol gan offerynnau sydd â gwerth teg net positif gan un o'r partïon ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r ACC yn credu bod uchafswm unrhyw risg gredyd a wynebir ganddi fel a ganlyn:

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 45,201 | 26,781 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 164,467 | 149,510 |
| Asedau trydydd parti | 13,093 | 17,455 |
| | 222,761 | 193,746 |

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau gyda banciau masnachol, yn cynnwys rhai a weinyddir drwy'r GBS, sydd â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai. Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd unrhyw warantau ariannol na rhwymedigaethau trydydd parti, ac eithrio symiau iawndal ar adnau a CCMT, oedd yn cynyddu risg credyd yr asedau ariannol uchod.

Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

Mae gan yr ACC risg gynhenid gyda derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill, oherwydd mae ei chasgliadau arian parod yn tueddu i fod yn gymhleth.

Mae'r ACC yn cydnabod y risg yma ac yn ei lliniaru yn achos dyledion taliadau statudol, lle gellir gohirio gorfodi'r ddyled, drwy sicrhau pridiannau tir a defnyddio polisïau rheoli credyd i adennill dyledion diwarant. Weithiau mae'r gwaith casglu dyledion yn cael ei gontractio allan i gasglwyr dyledion masnachol.

Adlewyrchir maint y risg yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad derbyniadau sy'n £227.5m (2017-18: £212.4m).

Mae'r mwyafrif o dderbyniadau masnachol a derbyniadau eraill yr ACC o ganlyniad i daliadau statudol, £75.4m (2017-18: £74.3m) allan o gyfanswm derbyniadau ar ôl amhariad o £164.5m (2017-18: £149.5m).

Mae cyfran uchel o'r rhain wedi eu gwarantu ar eiddo ac mae eu setlo'n cael ei ohirio tan y gwerthir yr eiddo. Mae'r rhain, ynghyd â derbyniadau eraill, yn cynnwys darpariaeth amhariad ar sail y derbyniadau setlo disgwyliedig.

Mae'r ACC yn darparu ar gyfer amhariad derbyniadau ar sail profiad hanesyddol o gasglu arian parod, ac asesiad rheolwyr o daliadau sy'n debygol o gael eu hadennill, ar gyfer pob categori o ddyled.

Mae model amhariad yr ACC yn defnyddio proffiliau adennill hanesyddol yn ôl categori dyled i roi amcan o'r ddarpariaeth sydd ei hangen yn erbyn y balansau dyled. Mae'r model amhariad wedi'i ategu gan ragdybiaethau penodol gan gynnwys: oes y ddyled, bod incwm cyson drwy'r flwyddyn yn cael ei dderbyn yn erbyn y ddyled, a bod y gyfradd ddisgownt yn 3.70% nominal a 0.70% real (2017-18: 3.70% nominal a 0.70% real).

- Ystyriwyd effaith yr opsiynau rhesymol canlynol yn lle'r rhagdybiaethau hyn:
- 
- derbyn arian parod yn gyson drwy'r flwyddyn yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn
- defnyddio'r derbyniadau arian parod disgwyliedig i gyfrifo llif arian y ddarpariaeth amhariad +/-10%
- Cyfradd ddisgownt +/-1% (Trysorlys EM sy'n pennu'r gyfradd hon)

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | CYNNYDD/(LLEIHAD) MEWN ASEDAU ARIANNOL NET | | |
|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | 2018-19 £m | 2017-18 £m |
| Arian parod a dderbyniwyd | Yn gyson drwy'r flwyddyn | 1.0 | 1.1 |
| Derbyniadau arian parod disgwyliedig | +10% | 12.4 | 10.1 |
| Derbyniadau arian parod disgwyliedig | -10% | (12.3) | (10.7) |
| Cyfradd ddisgownt | +1% | (5.4) | (6.2) |
| Cyfradd ddisgownt | -1% | 5.9 | 6.1 |

Drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau rhesymol posib eraill hyn, gallai gwerth teg yr asedau ariannol ar 31 Mawrth 2019 fod yn uwch o £19.3m (2017-18: £17.3m) neu'n is o £16.3m (2017-18: £16.9m).

Bydd y rhagdybiaethau yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u newid os yw rheolwyr o'r farn bod rhagdybiaethau eraill yn adlewyrchiad gwell o'r tueddiadau.

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r ACC yn defnyddio modelau prisio cymhleth i amcangyfrifo gwerth symiau na filiwyd amdanynt gydag achosion byw. Mae pob rhagdybiaeth sylweddol yn y modelau darpariaeth wedi eu hadnabod, newid rhesymol wedi'i adnabod a'r effaith ar falans terfynol y gwaith anorffenedig wedi'i chyfrifo. Mae'r rhagdybiaethau wedi eu newid naill ai i gynrychioli'r rhai a fyddai wedi eu defnyddio gan y model ar sail tueddiadau data hanesyddol neu wedi'u hystumio gan ganran y credir iddi fod yn briodol gan reolwyr i ddangos yr effaith ar y ddarpariaeth. Ar gyfer pob rhagdybiaeth a ddadansoddir i asesu sensitifedd, dim ond y rhagdybiaeth honno a newidir. Os newidir dau neu fwy o ragdybiaethau ar yr un pryd, caiff gwir sensitifedd newid y rhagdybiaeth ei guddio oherwydd rhyngberthynas bosib y rhagdybiaethau. Lle nad oedd dull o ddiystyru'r model, cymhwyswyd sensitifedd y rhagdybiaeth gyda llaw lle bo'n briodol.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gwblhawyd, datgelir yr agweddau sensitif canlynol

Pob cynllun ac eithrio Cyrychiolaeth Sifil a Throseddol Uwch

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | CYNNYDD RHWYMEDIGAETH | | (LLEIHAD) RHWYMEDIGAETH | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Rhagolwg gwariant | 2.3% | 1.2 | -8.1% | (4.4) |
| Hyd achosion | 6.0% | 6.2 | -5.5% | (5.7) |
| Proffiliau prisiau | 7.8% | 4.1 | -12.0% | (6.2) |

Mae effaith y ffigyrau amgen rhesymol uchod ar y mewnbynnau wedi eu mesur fel a ganlyn: rhagolwg gwariant +2.3% i -8.1%, hyd achos +6.0% i -5.5% a phroffiliau prisiau +7.8% i 12.0%. Gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau amgen rhesymol hyn, gallai gwaith anorffenedig ar 31 Mawrth 2019, fod yn uwch o +9.1% (£11.5m) neu'n is o -12.8% (-£16.3m).

Nid yw'r rhagdybiaethau uchod yn cynnwys newidynnau'r model a ddefnyddiwyd i gyfrifo darpariaethau gwaith anorffenedig cynrychiolaeth sifil neu'r Cynllun Ffi wedi ei Graddoli (GFS).

Cynrychiolaeth Sifil
Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil anorffenedig fesul achos drwy ddefnyddio patrymau gwaith blaenorol, gyda nifer o ganlyniadau cost a pharhad posib. Mae'r cyfrifiadau'n cael eu segmentu rhwng y gwahanol ffrydiau gwariant a rhwng gwahanol gerrig milltir ym mywyd achos. Mae'r model yn rhagdybio gweithgarwch hyd at y digwyddiad ariannol nesaf ym mhob llif gwariant, gan adlewyrchu realiti amseru biliau busnes.

Cyrhaeddwyd y rhagdybiaethau amgen rhesymol isod drwy arsylwi pwyntiau uchel ac isel hanesyddol o fewn data ffynhonnell y modelau priodol, wedi eu haddasu ar gyfer tueddiadau a ragwelir yn y dyfodol. Mae effaith y dewisiadau amgen rhesymol canlynol i'r mewnbynnau wedi'i meintioli.

## Rhagdybiaethau a brofwyd

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD | | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Proffil parhad a chostau trosiannol* | March 2018 profiles | 5.5 | Proffil Mawrth 2018 | (5.5) |
| Parhad bilio** | 110 diwrnod% | 3.9 | 80 days% | (4.1) |
| Rhagdybiaeth 'ynghwsg'*** | 910 diwrnod | 10.1 | N/A | N/A |

**Er mwyn amcangyfrif y ddarpariaeth, cyfrifir proffiliau sy'n amlinellu maint a chostau achosion cynrychiolaeth sifil. Mae elfen o ansicrwydd wrth gyfrifo'r proffiliau hyn, yn enwedig oherwydd yr oediad amser cynhenid. Rydym felly yn gwneud y rhagdybiaeth y gallai lefel y symiau sy'n wahanol fod yn hafal i lefel y symiau a oedd yn wahanol rhwng proffil eleni a phroffil y llynedd.
**Gall gymryd peth amser i ddarparwyr Cymorth Cyfreithiol lunio a chyflwyno eu biliau i ni pan fydd gwaith ar achos wedi ei gwblhau. Mae amcangyfrifo darpariaeth yn cymryd bod oediad cyfartalog gyfystyr â'r hyn a welwyd yn y chwarter blaenorol, fodd bynnag mae hyn yn amrywio ychydig dros amser. Rydym felly yn gwneud y rhagdybiaeth y gall yr oediad hwn amrywio hyd at 15 diwrnod i'r naill gyfeiriad a'r llall.
***Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, gwneir rhagdybiaeth bod achosion lle na fu gweithgarwch ariannol am dros ddwy flynedd 'ynghwsg', ac na fyddant yn rhan o weithgarwch pellach, ac felly nid ydym yn cynhyrchu darpariaeth ar eu cyfer. Mae risg bod hyn yn tanamcangyfrif y ddarpariaeth, gan y gall cyfran fechan o'r achosion hyn fod yn rhan o weithgarwch ariannol pellach. Rydym felly'n rhagdybio y gall y cyfnod ynghwsg fod yn hwy o 6 mis sef dwy flynedd a hanner.

Mae'r mewnbynnau uchod yn seiliedig ar ddata achosion, gyda haen o farn rheolwyr, er enghraifft wrth ddewis sawl blwyddyn o ddata achosion hanesyddol i'w defnyddio i greu proffiliau hanesyddol. Dylid nodi bod sensitifedd cynhenid y ddarpariaeth gwaith Cynrychiolaeth Sifil anorffenedig o'r fath fel y gallai symudiadau canrannol cymharol fach yn y mewnbynnau uchod arwain at grisialu'r amcangyfrifiad yn swm tra gwahanol. Adolygir y rhagdybiaethau o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.

Drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2019 fod yn uwch o +6.1% (£19.5m) neu'n is o -3.1% (-£9.5m).

### Troseddol Uwch

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer gwaith troseddol uwch anorffenedig ei hamcangyfrifo drwy ystyried ceisiadau achos a modelu'r cynnydd drwy'r system cymorth cyfreithiol, gan ystyried pryd caiff yr achos ei gwblhau, pryd gaiff gwaith ei wneud ar yr achos a'r gwahanol fathau o gostau posib er mwyn adlewyrchu'n well sut mae'r cynllun yn gweithio mor agos â phosibl. Yna caiff cyfrifiad ar wahân ei wneud i amcangyfrifo'r swm a dalwyd yn barod ar yr achosion hyn drwy daliadau interim.

Isod caiff senarios amgen rhesymol eu modelu. Mae'r rhain yn ymwneud ag ystumio rhagdybiaethau penodol, megis y nifer o achosion y disgwylir iddynt gau neu'r amser y mae achos yn ei gymryd i fynd drwy'r system.

## Rhagdybiaethau a brofwyd

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD | | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Proffiliau Prisiau | 10.0% | 26.3 | -10.00% | (26.3) |
| Cyfraddau cwblhau | 2.5% | 27.2 | -2.50% | (24.3) |
| Hyd achosion | 10.0% | 33.5 | -10.00% | (28.1) |

Gallai newidiadau cymharol fach i'r mewnbynnau hyn greu gwahaniaeth mawr i'r gwaith anorffenedig. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.

Drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2019 fod yn uwch o +24.8% (£87.0m) neu'n is o -25.7% (-£78.7m).

## Arian Parod

Mae balansau arian parod yn cael eu cadw gyda banciau buddsoddi cryf. Dewisir y banciau oherwydd eu statws credyd a'u gallu i gwrdd â gofynion bancio beunyddiol yr ACC. Mae eu sgoriau credyd yn cael eu monitro'n barhaus. Nid yw'r ACC wedi cofnodi amhariad yn erbyn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, ac nid oes problem adennill wedi'i chanfod gyda'r balansau hyn, gan gynnwys asedau trydydd parti. Fel arfer mae eitemau o'r fath yn cael eu hadennill ar gais neu'n unol â threfniadau bancio arferol.

## Nodyn 11 – Derbyniadau masnachol ac eraill

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN: | | |
| Dyledion crynswth | 391,960 | 361,901 |
| Darpariaeth ar gyfer amhariad | (227,493) | (212,391) |
| Cyfanswm | 164,467 | 149,510 |
| FESUL ELFEN: | | |
| Cyfraniadau'n ddyledus gan gwsmeriaid a ariannir | 6,762 | 7,366 |
| Costau i'w hadennill | 829 | 840 |
| Iawndal | – | 112 |
| Symiau'n ddyledus gan ddarparwyr gwasanaeth | 39,115 | 21,798 |
| Adennill costau amddiffyn | 38,059 | 38,417 |
| Rhagdaliadau ac Incwm cronnus | 326 | 692 |
| Dyledwyr rhyngadrannol | 2,632 | 4,250 |
| Derbyniadau eraill | 1,325 | 1,752 |
| Taliadau statudol a llog | 75,419 | 74,283 |
| Cyfanswm | 164,467 | 149,510 |

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 a Deddf LASPO 2012, lle mae cleientiaid a ariannir wedi adennill neu ddiogelu eiddo yn lle derbyn iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi tâl yn erbyn yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion lle mae llog o 8% y flwyddyn i'w dalu ar y balans dyledus.

Mae prisio derbyniadau masnachol ac eraill yn cynnwys elfen o amcangyfrifo; trafodwn hyn ymhellach o dan adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Swm net y ddyled taliadau statudol yw:

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau statudol | 47,103 | 48,860 |
| Llog wedi cronni hyd yma | 28,316 | 25,423 |
| Cyfanswm | 75,419 | 74,283 |

Datgelir y derbyniadau i gyd fel rhai dyledus ymhen blwyddyn er, yn achos dyledion taliadau statudol, gellir gohirio gorfodi'r ddyled. Gall ad-dalu dyledion gohiriedig gymryd mwy na blwyddyn i'w hadennill.

## Nodyn12 – Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 26,781 | 10,894 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 18,420 | 15,887 |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | 45,201 | 26,781 |

## Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth 2019 ar gadw gyda:

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 37,809 | 18,431 |
| Banciau Masnachol | 7,392 | 8,350 |
| Cyfanswm arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 45,201 | 26,781 |

## Nodyn 13 – Taladwyon masnachol a rhwymedigaethau eraill

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn: | £000 | £000 |
| Symiau'n ddyledus i gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori | 67,414 | 64,988 |
| Ad-dalu cyfraniadau sy'n ddyledus i gwsmeriaid a ariannir | 1,369 | 1,373 |
| Croniadau ac Incwm wedi'i ohirio | 107,087 | 99,676 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threth arall | 1,481 | 1,620 |
| Credydwyr rhyngadrannol | 3,891 | 10,636 |
| Taladwyon eraill | 7,408 | 10,562 |
| Cyfanswm | 188,650 | 188,855 |

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | £000 | £000 |
| Croniadau ac Incwm wedi'i ohirio | 521 | 448 |

## Nodyn 14 – Gwerthoedd teg

Isod nodir symiau llyfr a gwerthoedd teg ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ariannol yr ACC sy'n cael eu cario yn y datganiadau ariannol.

| SYMIAU LLYFR A GWERTHOEDD TEG | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 164,467 | 149,510 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 45,201 | 26,781 |
| Taladwyon masnachol ac eraill | (189,171) | (189,303) |

Mae'r ACC o'r farn bod symiau llyfr yr arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, y taladwyon masnachol a'r rhwymedigaethau eraill yn agos at eu gwerth teg oherwydd cyfnodau aeddfedu tymor byr yr offerynnau hyn.

Mae derbyniadau masnachol ac eraill wedi cael eu disgowntio dros y cyfnod o'r dyddiad adrodd i'r dyddiad casglu disgwyliedig. Mae hyn yn cael effaith o bwys ar eu gwerth presennol.

I ystyried effaith gwerth amser yr arian, defnyddiwyd techneg o amcangyfrifo drwy ddisgowntio'r holl falansau derbyniadau dros gyfnodau'n cyfateb i batrymau llif arian hanesyddol am bob dosbarth o dderbyniadau ar gyfradd o 3.7% real a 0.7% nominal (2017-18: 3.70% real, 0.70% nominal). Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yw cyfradd ddisgownt Trysorlys EM. Mae'r dechneg amcangyfrifo a ddefnyddir yn tybio y bydd amseriad y llif arian yn y dyfodol yn dilyn patrwm hanesyddol.

Hierarchaeth gwerthoedd teg

Mae'r ACC yn defnyddio'r hierarchaeth ganlynol i benderfynu a datgelu gwerth teg yr offerynnau ariannol yn ôl techneg brisio:

Lefel 1: prisiau dyfynnu'r farchnad (heb eu haddasu) ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath;

Lefel 2: technegau eraill lle mae pob mewnbwn sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg yn weladwy, naill ai'n union neu'n anuniongyrchol;

Lefel 3: technegau sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a heb fod yn seiliedig ar ddata marchnad gweladwy.

Daw'r holl asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd wedi'u mesur ar sail gwerth teg o dan lefel 3.

Roedd symudiad asedau ariannol yn y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwerth teg agoriadol derbyniadau masnachol ar 1 Ebrill 2018 | 149,510 |
| Symudiad mewn rhagdaliadau, croniadau, derbyniadau rhyngadrannol a derbyniadau eraill | (2,410) |
| Cynnydd dyledion crynswth | 35,181 |
| Addasiad gwerth teg dyledion i SOCNE | (2,712) |
| Cynnydd amhariad mewn dyledion i SOCNE | (15,102) |
| Balans cau derbyniadau masnachol ar 31 Mawrth 2019 | 164,467 |

## Nodyn 15 – Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 560,307 | 12,496 | 190 | 2,013 | – | 575,006 |
| Darparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | 1,653,154 | 44,301 | 503 | 25 | – | 1,697,983 |
| Darpariaethau wedi eu defnyddio yn y flwyddyn | (1,633,732) | (34,966) | (136) | (342) | – | (1,669,176) |
| Darpariaethau heb fod eu hangen – wedi eu hadfer | – | – | (286) | (152) | – | (438) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 579,729 | 21,831 | 271 | 1,544 | – | 603,375 |
| | | | | | | |
| Ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2017 | 527,113 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | – | 538,637 |
| Darparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | 1,633,343 | 41,364 | 270 | – | – | 1,674,977 |
| Darpariaethau wedi eu defnyddio yn y flwyddyn | (1,600,149) | (36,923) | (615) | (165) | – | (1,637,852) |
| Darpariaethau heb fod eu hangen – wedi eu hadfer | – | – | (565) | (191) | – | (756) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 560,307 | 12,496 | 190 | 2,013 | – | 575,006 |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau arian wedi eu disgowntio | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 579,729 | 21,831 | 271 | 946 | – | 602,777 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 387 | – | 387 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 211 | – | 211 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 579,729 | 21,831 | 271 | 1,544 | – | 603,375 |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau arian wedi eu disgowntio (ailddatganwyd) | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU £000 | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT £000 | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL £000 | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO £000 | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR £000 | CYFANSWM £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 560,307 | 12,496 | 190 | 1,342 | – | 574,335 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 460 | – | 460 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 211 | – | 211 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 560,307 | 12,496 | 190 | 2,013 | – | 575,006 |

Mae manylion yr ailddatganiad yn nodyn 22.

Mae'r ACC yn amcangyfrif gwerth costau achosion byw na filiwyd amdanynt, a'r gorchmynion costau amddiffyn na filiwyd amdanynt, yn flynyddol i gyrraedd y swm a ddatgelir yn y datganiadau ariannol fel darpariaeth. Mae'r swm yma'n amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae'r ACC wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus ar sail y data diweddaraf. Trafodir y rhain ymhellach o dan Adnabod a Rheoli Risg Ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Ar sail parhad cyfartalog achosion hanesyddol a'r data ar ohirio cyfartalog o ddyddiad dyfarnu'r gorchymyn costau amddiffyn tan ddyddiad talu'r bil, disgwylir bron i'r cyfan o'r costau am y symiau dyledus ar achosion na filiwyd amdanynt a gorchmynion costau amddiffyn na filiwyd amdanynt ddigwydd o fewn y 12 mis nesaf, ac felly ni ddefnyddiwyd unrhyw ddisgowntio.

Gwneir darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyfreitha cyfredol. Darperir ar gyfer amcan-gostau dadfeilio yng nghyswllt adeiladau prydles. Mae'r ddarpariaeth wedi ei hamcangyfrif ar sail cyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y brydles berthnasol.

Disgwylir i gostau'r darpariaethau dadfeilio ddigwydd rhwng 2019 a 2026 wrth i bob prydles ddod i ben.

## Nodyn 16 – Ymrwymiadau o dan brydlesi

Prydlesi gweithredol

Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredol yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau canlynol.

| MAE RHWYMEDIGAETHAU O DAN BRYDLESAU GWEITHREDOL YN CYNNWYS: | TIR AC ADEILADAU 2018-19 | TIR AC ADEILADAU 2018-19 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 1,370 | 1,485 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 3,906 | 2,032 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 3,021 | 1,040 |
| Cyfanswm | 8,297 | 4,557 |

O dan delerau'r prydlesi, nid oes unrhyw renti amodol yn daladwy a dim hawl i brynu. Cyfrifir yr ymrwymiadau ar sail oes lawn heb ddod i ben y prydlesi.

Nodyn 17 – Ymrwymiadau ariannol

Mae cyfanswm y taliadau y mae'r ACC yn ymrwymedig iddynt fel a ganlyn:

| | 31 MAWRTH 2019 | 31 MAWRTH 2018 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 3,928 | 605 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 2,819 | – |
| Gwerth presennol y rhwymedigaethau | 6,747 | 605 |

## Nodyn18 – Asedau a rhwymedigaethau amodol

Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd yr ACC yn ymchwilio unrhyw dribiwnlys cyflogaeth (2017-18: 2) nac unrhyw heriau cyfreithiol (2017-18: 2). Ni ddatgelir gwerthoedd y rhwymedigaethau wrth gefn o ystyried natur sensitif yr achosion hyn.

Mae gan yr ACC ddau ased amodol yng nghyswllt gorchmynion costau o achos cyfreithiol, gwerth cyfanswm o £22.43m (2017-18: dau achos gwerth cyfanswm o £0.27m).

Mae un o'r asedau amodol yn ymwneud â dyfarniad o £22.14m o ganlyniad i gamau cyfreithiol i adennill gordaliadau hanesyddol. Mae'r dyfarniad hwn ar hyn o bryd yn rhan o broses apêl, a bydd y deilliant yn wybyddus yn ddiweddarach yn 2019. Cydnabuwyd y dyfarniad fel ased wrth gefn nes y penderfynir ar yr apêl. Os bydd yr apêl yn aflwyddiannus bydd yr asiantaeth yn ceisio adennill y swm a ddyfarnwyd, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y swm llawn yn cael ei adennill, felly bydd y gwir swm cydnabyddedig yn arwyddocaol is na'r swm a ddyfarnwyd. .

## Nodyn 19 – Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r ACC yn un o asiantaethau gweithredol yr MoJ, sy'n cael ei hystyried i fod yn barti cysylltiedig. Dros y cyfnod hwn cafodd yr ACC amrywiol drafodion pwysig gyda'r MoJ. Cafodd yr ACC hefyd amrywiol drafodion o bwys gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), un o asiantaethau eraill yr MoJ, yng nghyswllt gwaith wedi'i ddarparu gan HMCTS ar

ran yr ACC.

Mae'r ACC hefyd wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau llywodraeth a chyrff eraill y llywodraeth ganolog. Y rhai mwyaf sylweddol o'r trafodion hyn oedd gyda Chyllid a Thollau EM a PCSPS.

Yn ystod 2018-19 ni chafodd unrhyw Aelodau Bwrdd na phartïon cysylltiedig eraill unrhyw drafodion â'r ACC (2017-18: dim trafodion).

Nodyn 20 – Asedau trydydd parti

Mae'r ACC yn dal dyfarniadau iawndal a chyfraniadau CCMT ar ran cleientiaid a ariannir (wele nodyn 1k).

Crynhoir isod gyfanswm yr asedau trydydd parti sydd ar gadw gan yr ACC

| | 31 MAWRTH 2018 | LLIF ARIAN I MEWN | LLIF ARIAN ALLAN | 31 MAWRTH 2019 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Iawndal* | 6,240 | 2,622 | (5,005) | 3,857 |
| Prawf Modd Llys y Goron** | 11,215 | 18,397 | (20,376) | 9,236 |
| Cyfanswm asedau trydydd parti ar gadw fel arian parod | 17,455 | 21,019 | (25,381) | 13,093 |

* Mae'r ACC yn derbyn dyfarniadau iawndal cyn i achos gael ei setlo'n derfynol ynghyd â chyfraniadau gan gwsmeriaid tuag at gostau cyfreithiol..
** Mae'r ACC yn derbyn cyfraniadau tuag at gostau cyn i'r dyfarniad a'r costau terfynol mewn achos gael eu penderfynu. Bydd canlyniad yr achos yn y pen draw'n penderfynu a fydd asedau trydydd parti'n trosglwyddo i'r ACC neu'n mynd yn ôl i'r trydydd parti.

## Nodyn 21 – Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', mae digwyddiadau'n cael eu hystyried hyd at y dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi, a ddehonglir fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w nodi.

## Nodyn 22 – Addasiad cyfnod blaenorol

Yn dilyn mabwysiadu IFRS 15 gan Ganllawiau Adrodd Ariannol Trysorlys EM, cynhaliodd yr Asiantaeth ymarfer i adnabod effaith gweithredu'r safon newydd ar refeniw.

Yn flaenorol roedd yr Asiantaeth yn cydnabod incwm a gwariant mewn achosion sifil lle penderfynwyd ar gostau drwy gytundeb rhwng y partïon yn hytrach nag asesiad manwl o'r costau gan y llys.

Cyfeiriwyd at yr elfen hon o incwm a gwariant fel Dibenion wedi eu Haddasu'n Unig (Adjusted Purposes Only (APO)).

Yn dilyn adolygiad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd incwm yn ymwneud â'r APO yn cyd-fynd â'r diffiniad fel y'i rhagnodir o dan IAS 18: Refeniw. Ni ddylai'r Asiantaeth felly fod wedi rhoi cydnabyddiaeth flaenorol i incwm a gwariant ar gyfer APO. Yn flaenorol, roedd y ddarpariaeth ar gyfer gwaith anorffenedig mewn achosion Cynrychiolaeth Sifil yn cynnwys elfen parthed

gwariant APO, gyfrannodd at orddatgan y ddarpariaeth gyfan o £70m yn 2017-18. Gan fod hyn o bwys i'r cyfrifon, mae'r Asiantaeth wedi ailddatgan y cyfrifon er mwyn cywiro'r gwall cyfnod blaenorol hwn. Mae'r cymaryddion blwyddyn flaenorol wedi eu hailddatgan er mwyn adlewyrchu effaith y gwall. Mae hyn wedi effeithio ar y cyfan o'n prif ddatganiadau yn ogystal â nodyn 2, 4, 6 ac 15.

Mae'r tablau isod yn dangos yr addasiadau a wnaethpwyd i'r datganiadau.

## Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 1 Ebrill 2017

| | Fel yr adroddwyd | Addasiadau | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 626,674 | 90,100 | 536,574 |
| Cronfa Gyffredinol | 621,822 | 90,100 | 531,722 |

## Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Fel yr adroddwyd | Addasiadau | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 643,974 | 69,639 | 574,335 |
| Cronfa Gyffredinol | 602,173 | 69,639 | 532,534 |

## Datganiad ar Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Fel yr adroddwyd | Addasiadau | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2017 | 621,822 | 90,100 | 531,722 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | 1,720,222 | 20,461 | 1,740,683 |

## Datganiad Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Fel yr adroddwyd | Addasiadau | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Costau gweithredu net | 1,720,222 | 20,461 | 1,740,683 |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 15,908 | 20,461 | 36,369 |

CCS0319733868
978-1-5286-1099-5